

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 16 Hydref 2012

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Naomi Stocks
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8421
deisebau@cymru.gov.uk

Name
Dirprwy Glerc y Pwyllgor
029 2089 xxxx
Name@wales.gov.uk

Agenda

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon 09:30**
- 2. Deisebau newydd 09:30 – 09:40**
 - 2.1 P-04-426 Introduce a mandatory 40mph speed limit on the A487 at Blaenporth Ceredigion (Tudalennau 1 – 3)
 - 2.2 P-04-427 A new Welsh language law for Wales (Tudalen 4)
 - 2.3 P-04-428 Alternative energy for street lighting (Tudalen 5)
- 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol 09:40 – 10:40**

Tai, Adfywio a Threftadaeth

- 3.1 P-04-403 Saving Plas Cwrt yn Dre/Old Parliament (Tudalennau 6 – 8)

Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

- 3.2 P-03-273 Transportation of Wind Turbines in Mid Wales (Tudalen 9)
- 3.3 P-04-344 Carthffos gyhoeddus yn Freshwater East (Tudalennau 10 – 12)
- 3.4 P-04-326 No to Incineration (Tudalennau 13 – 95)

- 3.5 P-03-309 Cardiff Against the Incinerator (Tudalennau 96 – 98)
- 3.6 P-04-351 Recall LDPs (Tudalennau 99 – 104)
- 3.7 P-04-398 Campaign for a Welsh Animal Offenders Register (Tudalennau 105 – 108)

Health & Social Services

- 3.8 P-04-396 Sgiliau Triniaeth Cynnal Bywyd Brys i Blant Ysgol (Tudalennau 109 – 110)
- 3.9 P-03-318 Cross Border Maternity Services (Tudalen 111)
- 3.10 P-04-400 Safon Ansawdd NICE ym Maes Iechyd Meddwl (Tudalennau 112 – 120)

Local Government & Communities

- 3.11 P-04-373 School Exclusion Zones for Mobile Hot Food Vans (Tudalennau 121 – 122)
- 3.12 P-04-370 Petition for the improvement of Psychic and Intuitive services in Wales (Tudalennau 123 – 125)
- 3.13 P-04-380 Dewch yn ôl a'n Bws! Deiseb yn erbyn diddymu'r gwasanaethau bws o ddwyrain Llanbedr Pont Steffan, Cwm-ann a Phencarreg (Tudalennau 126 – 261)
- 3.14 P-04-402 Gweddïau Cyngor (Tudalennau 262 – 264)

Eitem 2.1

P-04-426 Cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, Cyngor Cymuned Aber-porth, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o 40mya ar ffordd yr A487 ym Mlaen-porth, Ceredigion.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cefndir -

Mae pentref Blaen-porth yn gorwedd bob ochr i'r brif ffordd arfordirol rhwng de a gogledd Cymru, sef yr A487. Mae tua dwy ran o dair o boblogaeth y pentref yn byw i'r de o'r brif ffordd; mae'r gweddill yn byw yn bennaf o amgylch yr eglwys leol i'r gogledd. Yn ôl y wybodaeth y mae Cyngor Cymuned Aber-porth wedi'i chanfod, hwn yw'r unig bentref heb derfyn cyflymder gorfodol ar hyd arfordir Bae Ceredigion rhwng Abergwaun i'r de a Phorthmadog, Gwynedd, i'r gogledd.

Data hanesyddol hyd at Ebrill 2012: -

Mae llythyrau a negeseuon e-bost niferus wedi'u hanfon at Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

Ni chafwyd yr un ateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru. Mae Adran Briffyrdd Ceredigion yn ymateb ar ffurf llythyrau neu drwy e-bost, ond ni chafwyd cefnogaeth i'r newid.

Ym mis Hydref 2009, cafwyd Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 24/2009: Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru. Am ddwy flynedd ni wnaeth Gyngor Sir Ceredigion ddim, ac yna, mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor ar 25/10/2011, cynigiwyd moratorium ar gyflwyno terfynau cyflymder newydd. Roedd hyn ar yr wythfed o'r naw tudalen a oedd yn cael eu trafod: fait accompli! Mae penderfyniad swyddogion Gyngor Sir Ceredigion i ddechrau'r broses ddwy flynedd ar ôl dyddiad y cylchlythyr ac i gymryd tair blynedd (tan fis Rhagfyr 2014) i'w rhoi ar waith yn cwestiynu hygrdedd y broses.

Ysgogodd y penderfyniad Gyngor Cymuned Aber-porth i ysgrifennu at Brif Weithredwr Gyngor Sir Ceredigion, ond roedd yr ateb ond yn cefnogi'r "party line".

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd Elin Jones, Aelod Cynulliad Ceredigion, hefyd yn ceisio cyflwyno terfyn cyflymder gorfodol ond heb lwyddiant.

O fis Mai 2012 ymlaen: -

Ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai, teimlodd Cyngor Cymuned Aber-porth fod ganddo fandad newydd gan yr etholwyr i geisio unwaith eto i gael terfyn cyflymder gorfodol ym Mlaen-porth.

Cychwyn yr ymgyrch oedd ymweliad safle gyda'r Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet y Cyngor dros Drafnidiaeth, a gefnogodd ein hachos ac a anfonodd negeseuon e-bost at Adran Briffyrdd y Cyngor a menter Gan Bwyll.

Cyfarfu cadeirydd Pwyllgor Priffyrdd Cyngor Cymuned Aber-porth â Mark Williams, Aelod Seneddol Ceredigion, a gynigiodd ei gefnogaeth yntau.

Penderfynwyd hefyd anfon copi at Aelodau Cynulliad Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cafodd Rebecca Evans AC ateb o'r diwedd gan Mr Deio Evans o'r Asiantaeth, yn ailadrodd yr un stori, sef y bydd rhaid aros tan fis Rhagfyr 2014 cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau newydd ar derfynau cyflymder. Cynigiodd William Powell AC y Pwyllgor Deisebau fel cyfle olaf.

Gwybodaeth ychwanegol o ran diogelwch: -

Ddiwedd tymor yr haf 2012, caeodd Cyngor Sir Ceredigion yr ysgol leol, Ysgol Gynradd Blaen-porth, ynghyd â sawl ysgol arall, ac agorodd ysgol newydd, Ysgol Gymunedol T Llew Jones, ym Mrynhoffnant, Ceredigion, rhyw bum milltir i'r gogledd ar yr A487.

Fel y nodwyd yn y paragraff cefndir, mae dwy ran o dair o gartrefi Blaen-porth yn rhan ddeheuol y pentref. Mae gan y disgyblion hyn a'u rhieni ddau ddewis o ran mynd i'r ysgol newydd.

1. Gallant fynd â'u plant ysgol gynradd yn y bore i'r safle bws dros y ffordd sydd o fewn terfyn cyflymder cynghorol gyda therfyn cyfreithiol o 60mya (amcangyfrifir bod dros hanner y traffig yn mynd yn gynt na'r cyflymder cenedlaethol hwn). Mae amseroedd codi plant ysgol hefyd yn cyd-daro â thraffig cymudwyr, neu
2. Gallant gludo'r plant mewn ceir i faes parcio cyn-ysgol Blaen-porth fel y gallant ddal y bws yn ddiogel. Mae risgiau ynghlwm â'r dewis hwn hefyd, o ran mai hyn a hyn o amser yn unig sydd ar gael i ddal y bws ysgol, yn hytrach nag o'r blaen pan oedd yr ysgol ar agor.

Wrth gwrs, bydd y plant sy'n byw ar ochr ogleddol y pentref yn gorfod croesi'r ffordd beryglus hon wrth ddychwelyd o'r ysgol.

Mae'r sefyllfa hon wedi cael sylw yn y wasg leol, a hynny yn rhifyn 25 Medi 2012 o'r Tivy-Side Advertiser.

Crynodeb: -

Nid yw Cyngor Cymuned Aber-porth yn gallu deall pam nad oes terfyn cyflymder gorfodol ym Mlaen-porth, na diffyg cefnogaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion i gyflwyno terfyn. Nid yw Ceredigion yn sir fawr, ac mae cymryd tair blynedd i wirio terfynau cyflymder ar Ffyrdd A a B yn ymddangos yn gyfnod eithriadol o hir i gynnal ymarfer o'r fath.

Dylai cyflwyno terfyn cyflymder mewn un pentref ar yr A487 yn y sir fod yn gymharol ddidrafferth.

Cynigiwyd y ddeiseb gan: Cyngor Cymuned Aber-porth

Y dyddiad yr ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf: 16 Hydref 2012

Nifer y llofnodion: Cyngor Cymuned Aber-porth

Eitem 2.2

P-04-427 : Cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu cyfraith newydd ynghylch y Gymraeg oherwydd teimlwn nad yw'r cyfreithiau presennol yn mynd yn ddigon pell o ran diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes gofyn i'r sector preifat gael cynlluniau na pholisïau iaith Gymraeg ac nid oes yn rhaid iddo drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Er bod gan siaradwyr Cymraeg fwy o hawliau bellach, mae angen iddynt gael yr hawl i allu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywyd dyddiol.

Prif ddeisebydd: Gethin Kurtis Sugar

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 16 Hydref 2012

Nifer y llofnodion: 93

P-04-428 : Ynni amgen ar gyfer goleuadau stryd

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ffynhonnell ynni goleuadau stryd ar gefnffyrdd yng Nghymru ac i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol yn gofyn bod goleuadau stryd lleol yn cael eu newid fel eu bod yn defnyddio ynni amgen.

Gwybodaeth Ategol : Mae Llywodraeth Cymru'n honni ei bod yn gweithio yn ôl Agenda 21, sef lleihau llygredd drwy leihau'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio. Yn ystod y nos, mae goleuadau stryd yn golygu bod yr ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yn cyrraedd uchafswm. Felly, credaf y dylai'r Llywodraeth newid ffynhonnell ynni goleuadau stryd yn y wlad. Er enghraifft, mae ynni solar ac ynni gwynt yn cael eu defnyddio yn barod ar gyfer rhai arwyddion stryd, a byddai newid yr holl oleuadau stryd yn cynnig cyfleoedd gwaith eang a chynaliadwy i filoedd. Byddai'r darparwyr trydan wedyn yn gallu gostwng eu prisiau i'r defnyddwyr a'r awdurdodau lleol..

Prif ddeisebydd: Ethan Gwyn

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 16 Hydref 2012

Nifer y llofnodion: 22

Eitem 3.1

P-04-403 Achub Plas Cwrt yn Dre/ Hen Senedd-Dy Dolgellau

Petition wording:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddyd i Lywodraeth Cymru i brynu Plas Cwrt yn Dre, a elwir hefyd yn Hen Senedd-dy Owain Glyndŵr, Dolgellau, cyn bo'r trysor cenedlaethol hwn yn cael ei werthu ar y farchnad agored a'i golli am byth.

Gwybodaeth ategol: Symudwyd Plas Cwrt yn Dre, a elwir hefyd yn Hen Senedd-dy Owain Glyndŵr, o Ddolgellau i Barc Dolerw, y Drenewydd ym 1886. Bellach ni all y Crynwyr, perchnogion yr adeilad ar hyn o bryd, fforddio i'w gynnal a'i gadw ac mae ar werth ganddynt am £55,000. Mae hwn, heb os, yn drysor cenedlaethol a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru ei brynu ar gyfer y genedl .

Petition raised by: Sian Ifan

Date petition first considered by Committee: 2 Gorffennaf 2012

Number of signatures: 218 (Casglwyd 10 llofnod ychwanegol ar ddeiseb gysylltiol)

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-403
Ein cyf/Our ref HL/05946/12

William Powell AM
Chair Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

19 July 2012

Dear William

Thank you for your letter asking for my comments on the petition led by Sian Ifan, asking that the Welsh Government be instructed to purchase Plas Cwrt yn Dre, Newtown.

The Welsh Government has a duty to conserve and present the sites in its care and with limited resources at our disposal we need to be satisfied that certain criteria are met in assessing whether to take on any additional sites. Generally, sites should be of outstanding importance at a national level, and many sites which do not meet that criterion are managed by others than Cadw, for example private owners or public bodies such as local authorities. We also need to be sure that we really are the option of last resort and the site cannot be properly sustained by others.

In this instance there does not seem to be any compelling reason to take the property into state care. It seems to have been suitably managed in its previous use as a meeting house for the Society of Friends, and although currently vacant, it is being actively marketed for private sale. The building is listed – it was upgraded to II* earlier this year - which introduces a statutory requirement to have special regard to the desirability of preserving the building, or its setting, or any features of special architectural and historic interest that it may have. The local planning authority is able to protect the character of the property through the requirement to obtain listed building consent for any works of alteration or extension which would affect its character as a building of special architectural or historic interest. I am satisfied that listing provides the most appropriate framework for the protection of this building, which is not currently on the Buildings at Risk Register maintained by Powys County Council.

In re-evaluating the grading earlier this year, my officials in Cadw were able to examine the structure of the building and some of the material relating to its history, an exercise which has led to a much better understanding of its development and the extent of change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: huw.lewis@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

associated with the move from Dolgellau to Newtown. There is no direct evidence for the date of the original building, and no references to an association with Owain Glyndwr before the early nineteenth century, and although the strength of an assumed association undoubtedly contributed to its survival, the building was heavily modified when it was re-erected in Newtown – relatively little of the form and fabric of the original building survived in what was in effect an imaginative reconstruction.

I hope that this reply is of help.



Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage

P-03-273 Cludo tyrbinau gwynt yn y Canolbarth

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol i sicrhau eu bod yn ymgynghori'n briodol â chymunedau ynghylch datblygiadau ffermydd gwynt a'u bod yn cynnal asesiad priodol o effaith y datblygiadau ar y seilwaith ffyrdd gan ystyried sut y bydd problemau traffig yn effeithio'n ehangach ar sectorau fel twristiaeth cyn cymeradwyo unrhyw ddatblygiad. Credwn mai dim ond drwy gynnal ymchwiliad cyhoeddus y gellir cwblhau asesiad priodol.

Cynigwyd gan: Cyngor Tref y Trallwng

Nifer y llofnodion: 1

Eitem 3.3

P-04-344 Carthfos gyhoeddus yn Freshwater East

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod, sy'n berchen ar dai yn Freshwater East, yn galw ar Lywodraeth Cymru i beidio â chymryd camau gorfodi yn erbyn Dŵr Cymru ynghylch gosod carthffos gyhoeddus yn Freshwater East.

Prif ddeisebwr: Royston Thomas

Y dyddiad yr ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf: 29 Tachwedd 2011

Nifer y deisebwyr: 106

PET(4)-14-12 : Tuesday 16 October 2012

P-04-344 : Freshwater East Public Sewer

Correspondence from Environment Agency to Committee

Freshwater East Update Briefing Note for Petitions Committee Secretariat

The Environment Agency has undertaken two surveys at Freshwater East to ascertain if there is any significant environmental impact of private sewage treatment facilities.

The first survey was conducted in January 2012 and a second survey in June of the same year when property occupancy in Freshwater East was expected to be higher following a two-day bank holiday.

We have presented the results of the surveys to officials in Welsh Government's Water Branch. The surveys conclude that there is little impact on local water courses. Where impacts have been detected it is believed that these can be addressed through improved management of individual treatment facilities. The results strongly suggest that, where found, bacteria loadings are from agricultural rather than domestic sources.

A report has been submitted to Welsh Government together with a letter outlining what we believe should be the next steps in the s101a determination process.

We intend to send copies of the survey to elected representatives in the community and known interested parties and then meet with the Community Council in October to explain the survey findings. We would hope by then to be in a position to also discuss the way forward.

PET(4)-14-12 : Tuesday 16 October 2012
P-04-344 : Freshwater East Public Sewer

Freshwater East Action Group against Public Sewer Installation

7th October 2012

Petitions Committee
National Assembly for Wales

We refer to your e-mail of 3rd October 2012. With it you attached a 'Briefing Note'. We assume that the Briefing Note was prepared by the Environment Agency but please inform us if our assumption is incorrect.

It is difficult to comment on the note without access to both the report being submitted to the Welsh Government and the letter referred to in the note which outlines the next steps to be taken in the S101a determination process. In addition we have not been sent a copy of the second survey despite asking for the same. This reluctance to communicate with the village reflects the way in which this matter has been handled from the beginning.

Having said that, we see from the note that both surveys concluded that the current septic tanks are having little impact on local water courses and that, such bacteria as was found was likely to be caused by farming rather than local homes. **This confirms what we have always believed.** It is a shame that such surveys were not carried out at the outset.

A lot of public money was spent on the Judicial Review procedure instigated by the Environment Agency concerning Welsh Water's change of mind about the need to provide an extended sewerage system in Freshwater East. The latest surveys suggest that that could have been avoided had a more rigorous scientific approach to the alleged pollution issue been adopted. We hope that both the Minister and the members of the Petitions Committee will want to ensure that both the Environment Agency and Welsh Water will learn lessons from this matter.

We understand from our communications with the Environment Agency that there has been some disagreement between the Minister's office and the Environment Agency as to who has to make the final decision in this matter. We trust that this will be resolved shortly. **We would ask the Petitions Committee to continue to keep a watching brief on this matter until we know the outcome and until acceptable arrangements have been made to hold a local public meeting to inform local residents of the outcome and the reasons for the final decision.**

We are most grateful for your continued assistance.
Yours sincerely,
Roy and Pat Thomas (for Action Group)

P-04-326 Na i losgyddion

Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i bwysu ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio ei pholisi cynllunio a'i pholisi ynghylch gwastraff gweddilliol er mwyn cael rhagdybiaeth yn erbyn adeiladu llosgyddion, gan eu bod yn gyrru'r rhan fwyaf o garbon o wastraff i mewn i'r awyr ar ffurf carbon deuocsid, yn rhyddhau gronynnau mân iawn a allant fod yn beryglus i iechyd y cyhoedd, ac yn creu lludw gwenwynig. Credwn fod llosgyddion yn wael i'r amgylchedd ac yn wael i bobl.

Cynigwyd gan: Cyfeillion y Ddaear Cymru

Nifer y llofnodion: 1299 (Casglodd deiseb gysylltiedig 13,286 o lofnodion)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru
Mehefin 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorAC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru
Mehefin 2012



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: cynnal, datblygu a chynllunio ar gyfer amgylchedd ac adnoddau ynni naturiol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Dafydd Elis-Thomas
(Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



Mick Antoniw
Llafur Cymru
Pontypridd



Rebecca Evans
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Russell George
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



Vaughan Gething
Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Julie James
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



William Powell
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



David Rees
Llafur Cymru
Aberafan



Antoinette Sandbach
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru

Cynnwys

Cynllun yr adroddiad	5
Cyflwyniad	6
Datblygiadau pwysig yn ystod yr ymchwiliad.....	8
Arweiniad	9
Datganoli	12
Cymysgedd Ynni	15
Manteision economaidd/cymorth ariannol	18
Targedau Ynni Adnewyddadwy.....	21
Y broses gynllunio a chydsynio	24
Adnoddau/arbenigedd	28
Polisi Cynllunio	31
Nodyn Cyngor Technegol 8	34
Trafnidiaeth	38
Mynediad i'r grid	41
Cyfranogiad/buddion cymunedol	45
Materion technoleg penodol (nad ydynt wedi'u trafod fel arall yn yr adroddiad).....	48
(a) Microgynhyrchu/ynni adnewyddadwy cymunedol	48
(b) Ynni'r Môr ac Ynni'r Llanw	49
(c) Troi gwastraff yn ynni/Biomass	50
(d) Pŵer ynni dŵr	54
(e) Glo/nwy confensiynol/dal a storio carbon	55
(f) Nwy Anghonfensiynol.....	57
Cylch Gorchwyl Gwreiddiol.....	59
Atodiad A – Prosiectau Ynni yng Nghymru: cyfrifoldeb am gydsynio.....	61
Atodiad B – Tystion.....	66
Atodiad C – Tystiolaeth Ysgrifenedig	70

Cynllun yr adroddiad

Cynhaliodd y Pwyllgor 20 o sesiynau tystiolaeth. Hefyd, derbyniodd 315 o ymatebion ysgrifenedig i'w ymgynghoriad. O'r rhain, roedd dros 250 gan unigolion a grwpiau cymunedol/gweithredu lleol, o ganolbarth Cymru yn bennaf. Yn ogystal â'r ymatebion ysgrifenedig, derbyniodd y Pwyllgor hefyd 109 cwpon o bapur newydd y Powys County Times a 85 o ffurflenni safonol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r ddwy ddeiseb. Roedd y ffurflenni'n cynnwys opsiwn 'bocs ticio' i fynegi cefnogaeth mewn perthynas â'r ddwy ddeiseb y cyfeirir atynt yn y cylch gorchwyl gwreiddiol.

Er mwyn crynhoi'r holl ddeunydd, mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer o brif faterion a themâu sydd wedi codi yn y dystiolaeth. Ar gyfer pob un o'r rhain, rydym wedi nodi'r canlynol:

- crynodeb o bwyntiau allweddol y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a'r safbwyntiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan randdeiliaid. Nid ydynt wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol. Yn amlwg, ni ddywedodd yr holl randdeiliaid yr un peth a cheir safbwyntiau gwrthgyferbyniol a chroes iawn ar rai o'r materion. Mae'r crynodebau yn adlewyrchu hyn ac nid yw cynnwys sylw penodol yn yr adran 'safbwyntiau rhanddeiliaid' yn golygu bod hyn hefyd o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt y Pwyllgor;
- barn Llywodraeth Cymru ar y mater. Mae hon naill ai wedi'i chymryd o'i thystiolaeth i'r Pwyllgor neu o'i dogfennau polisi;
- barn y Pwyllgor ar y mater. Mae ambell achos lle nad oes gan bob aelod o'r Pwyllgor yr un farn ac adlewyrchir hyn yn y testun;
- argymhellion y Pwyllgor;

Cyflwyniad

- mae ymchwiliad y Pwyllgor i Ynni a Chynllunio wedi cael effaith sylweddol. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at y ddadl ac wedi sbarduno trafodaeth. Derbyniwyd llawer iawn o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar;
- mae polisi Llywodraeth Cymru a'r DU wedi esblygu yn ystod yr ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fu llawer o gynnydd ar gysyniadau pellach i wynt ar y tir - yn enwedig prosiectau gwynt ar y tir yng nghanolbarth Cymru (Adran 36 o Waddol *Deddf Trydan 1989* a cheisiadau *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*);
- mae'r ymchwiliad wedi cadarnhau pwysigrwydd hanfodol y sector ynni yng Nghymru - wrth gyfrannu at dargedau'r UE ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, wrth helpu i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr a hefyd fel sbardun economaidd;
- mae'r potensial enfawr am ynni adnewyddadwy ar y tir ac ar y môr wedi dod i'r amlwg - mae'n bwysig bod Cymru a'i phobl yn elwa, ond mae angen rheoli'r effeithiau'n ofalus;
- cydnabyddir y bydd angen ffurfiau 'baslwyth' neu 'ar alw' o ynni ar gyfer y degawd nesaf o leiaf;
- dim ond yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf y mae goblygiadau dulliau newydd o gynllunio seilwaith a phwysigrwydd canfod ffynonellau ynni newydd wedi dod i'r amlwg;
- mae cymunedau a phobl leol wedi lleisio pryderon digon teg ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynllunio a sut yr aethpwyd ati i ymgynghori a chyflwyno polisiau newydd yn y gorffennol;
- pwysigrwydd hanfodol ymgysylltu â'r cyhoedd, budd cymunedol a chefnogaeth y gymuned. Cafwyd problemau ynglŷn â sut mae polisiau ynni a pholisiau cynllunio cysylltiedig wedi'u cyfathrebu yn y gorffennol. Mae angen dysgu rhai gwersi yn sgil hyn;
- mae cefnogaeth gadarn ymysg rhanddeiliaid i *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* a'i Rhaglen Ynni gysylltiedig - cam pwysig ymlaen tuag at gydnabod pwysigrwydd negeseuon y mae'r Pwyllgor wedi'u clywed;
- mae pwysigrwydd dull sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng ynni/cymunedau/yr amgylchedd naturiol wedi'i nodi. Mae hyn yn rhan o'r dull Fframwaith Amgylchedd Naturiol ac mae'n cael ei gydnabod yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*.

- mae angen derbyn y bydd rhywfaint o effaith amgylcheddol o leiaf yn y tymor byr. Gwnaed y pwynt hwn gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn benodol:

“[...] mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn cydnabod y bydd yn aml yn angenrheidiol ymgylcheddol â'r angen i dderbyn rhai effeithiau lleol ar ein treftadaeth naturiol yn y tymor byr er mwyn sicrhau bod allyriadau o waith cynhyrchu ynni'n lleihau, gan sicrhau ar yr un pryd bod gofynion cyfreithiol i warchod yr amgylchedd yn cael eu cynnal.”

Datblygiadau pwysig yn ystod yr ymchwiliad

Yn ystod y cyfnod y mae'r Pwyllgor wedi bod yn cymryd tystiolaeth, cafwyd nifer o ddatblygiadau pwysig, gan gynnwys:

- *Deddf Lleoliaeth 2011* - diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a chreu'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol o fewn yr Arolygiaeth Gynllunio o fis Ebrill 2012;
- sefydlu'r Comisiwn Silk - ni fydd cydsyniadau ynni yn cael eu datganoli ymhellach am rai blynyddoedd o leiaf;
- *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* - ynghyd â rhaglen ynni gyfochrog - a lansiwyd ym mis Mawrth 2012;
- penderfyniad Horizon Nuclear Power i dynnu yn ôl o Wylfa B;
- cyhoeddwyd adolygiad cynllunio o'r broses gydsynio ar gyfer ynni gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (adolygiad Hyder);
- adolygiad ehangach o'r system gynllunio yng Nghymru - mae ymgynghoriad wedi'i gynnal - i baratoi ar gyfer Papur Gwyn y Bil Cynllunio yn 2013;
- mae ymgynghoriad ar 'ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy' yng Nghymru wedi'i gwblhau;
- adolygiadau Tariffau Cyflenwi Trydan gan Lywodraeth y DU;
- ymgynghoriad ar adolygu bandiau Tystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy;
- cydsyniad terfynol ar gyfer Gorsaf Bŵer Penfro ym mis Tachwedd 2011;
- ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Barthau Cadwraeth Morol a lansiwyd ym mis Ebrill 2012;
- cymeradwyo fferm wynt ar y tir Pen y Cymoedd ym mis Mai 2012;
- llywodraeth y DU yn cyhoeddi Bil Ynni 2012 (drafft) ym mis Mai 2012;
- llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ym mis Mai 2012;
- cyhoeddi'r Gorchymyn drafft ym mis Mai 2012 ar gyfer y Corff Adnoddau Naturiol newydd a fydd yn cymryd lle Cyngor Cefn Gwlad Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru/ Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Arweiniad

Barn rhanddeiliaid

- yr angen i Lywodraeth Cymru ddangos mwy o arweiniad wrth ddatblygu polisiau a thargedau ynni adnewyddadwy. Mae llawer o randdeiliaid yn credu fod Llywodraeth yr Alban wedi dangos arweiniad cadarn.
- yr angen i awdurdodau lleol ddangos arweiniad strategol wrth hybu ynni adnewyddadwy – gan gynnwys yr awdurdodau hynny na chânt eu heffeithio'n uniongyrchol gan Ardal Chwilio Strategol. Mae'n bwysig sicrhau bod hyn yn treiddio i lawr i lefel swyddogion. Yma, mae arweiniad yn golygu rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarpariaeth a chymorth i ddatblygu ynni adnewyddadwy;
- yr angen i gyrff cydsynio eraill yng Nghymru (yn enwedig Cyngor Cefn Gwlad Cymru/ Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) ddangos arweiniad yn y maes polisi hwn. Cymharu'n anffafriol â chyrrff cyfatebol yn yr Alban. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae arweiniad yma'n golygu rhoi mwy o flaenoriaeth i ddarpariaeth a chymorth ym maes ynni adnewyddadwy;
- yr angen am Fwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy cynhwysfawr i gydgyssylltu/sbarduno darpariaeth. Mae Bwrdd Cynghori ar Ynni yr Alban gyda'i is-grwpiau yn fodel posibl;
- pryderon nad yw Llywodraethau blaenorol Cymru wedi ymgynghori'n ddigonol â chymunedau lleol ar effaith eu polisiau ynni a chynllunio;
- dryswch ynglŷn â Datganiad Cabinet y Prif Weinidog a llythyr egluro Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y llynedd – mae rhai yn dweud bod hyn wedi tanseilio hyder;
- dylai Gweinidogion wneud gwell defnydd o Banel y Sector Ynni a'r Amgylchedd ar gyfer cyngor ac er mwyn hyrwyddo negeseuon allweddol;
- galwad i wella dealltwriaeth a chanfyddiad y cyhoedd o dechnolegau adnewyddadwy ac egluro drwy ymgyrchoedd rheolaidd i gynnal momentwm.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd ynni. Mae'n nodi pwysigrwydd darparu arweiniad "er mwyn sicrhau bod gan Gymru fframwaith clir a chyson ar gyfer buddsoddwyr, rheoleiddwyr a'r rhai sy'n gwneud

penderfyniadau ynghyd â'r seilwaith, y cydgysylltu a'r sefydlogrwydd i sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i wneud busnes”.

Barn y Pwyllgor

- mae arweiniad yn y maes hwn gan lywodraeth ar bob lefel yn hollbwysig. Er gwaethaf barn rhai rhanddeiliaid, mae cyngor arbenigol a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn ein harwain i ddod i'r casgliad bod nifer o ffactorau wedi arwain at ddefnydd ehangach o ynni adnewyddadwy yn yr Alban ac nad yw'n syml yn fater o arweiniad cryfach gan Lywodraeth yr Alban;
- mae'r Pwyllgor yn croesawu *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* sy'n gam pwysig i'r cyfeiriad iawn - bydd y Pwyllgor am fonitro'n ofalus sut y gweithredir y pethau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod am eu gwneud. Roedd y dryswch a achoswyd y llynedd gan Ddatganiad y Prif Weinidog a'r llythyr dilynol gan Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn anffodus;
- mae'n hanfodol fod yr ôl-groniad cyfredol o gynlluniau ynni gwynt ar y tir sydd ar y gweill yn cael ei ddatrys - mae hyn yn golygu y dylai llywodraeth ar bob lefel ddangos arweiniad wrth fynd i'r afael â'r materion trafniadaeth/grid/effaith gronnol pwysig. Mae llawer o'r rhain yn gynlluniau mawr sy'n cael eu hystyried y tu allan i Gymru fel ceisiadau a etifeddwyd o dan Adran 36 o *Ddeddf Trydan 1989*. Mae hefyd angen i'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol fynd i'r afael â nifer o geisiadau posibl o dan *Ddeddf Cynllunio 2008*. Tan i rai penderfyniadau gael eu gwneud mae'n anodd i gymunedau ddeall beth sy'n digwydd ac mae'n anodd cynllunio'n iawn ar gyfer y seilwaith ategol sy'n debygol o fod yn angenrheidiol. Mae'r penderfyniad diweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gymeradwyo fferm wynt 299 Megawat Pen y Cymoedd yn rhoi rhyw arwydd o sut y gellid gwneud penderfyniadau o'r fath;
- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn cydnabod yr angen i sicrhau bod cymunedau'n ymgysylltu'n llawn ac yn elwa'n gadarnhaol yn yr hirdymor ar ddatblygiadau ynni. Mae'n rhaid i wella dealltwriaeth a chanfyddiad y cyhoedd fod yn flaenoriaeth;
- mae angen i awdurdodau cynllunio lleol ddangos gwell arweiniad strategol a chydweithio i ddarparu pob math o ynni adnewyddadwy ac annog ymgysylltu â'r gymuned, waeth a ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan Ardal Chwilio Strategol ai peidio;
- wrth fwrw ymlaen â'i chynigion ar gyfer Corff Adnoddau Naturiol, mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ymdrin

â phrosiectau ynni, o safbwynt rheoleiddio, ymgynghori statudol a datblygu masnachol.

Argymhellion

Pennawd

1. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy** i weithredu fel corff cydgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r llywodraeth, datblygwyr a rheoleiddwyr.
2. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i **ryddhau'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir**, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru.
3. Dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu **trefniadau gwaith ffurfiol**, yn enwedig ar **lefel ranbarthol** ar ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy (agenda Simpson).
4. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu **Cynllun Adnoddau Naturiol** ar gyfer Cymru **erbyn diwedd 2013**. Byddai'r cynllun hwn yn cyd-fynd â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn cael ei integreiddio â'r Cynllun Gofodol Morol ac yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio prosiectau ynni yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai'r fframwaith fod yn seiliedig ar dystiolaeth a dylai archwiliad annibynnol brofi pa mor "gadarn" ydyw cyn ei fabwysiadu.
5. Argymhellodd Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad y dylid adolygu rôl a swyddogaeth **Cynllun Gofodol Cymru**. Mae angen datblygu hyn ochr yn ochr â gwaith ar gynllunio adnoddau naturiol.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y **Panel Sector Ynni a'r Amgylchedd** yn cynrychioli pob math o ynni adnewyddadwy yn y dyfodol, gan gynnwys ynni Morol a dylai barhau i ddefnyddio ei arbenigedd i lywio polisïau a mentrau yn y dyfodol.
7. Dylai Llywodraeth Cymru drefnu ac ariannu rhaglen i wella'r lefel o **ymgysylltu â'r cyhoedd, o rymuso'r cyhoedd ac o drafodaeth wleidyddol** am dechnolegau adnewyddadwy.

Datganoli

Barn rhanddeiliaid

- mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer cynllunio/cydsynio prosiectau ynni mawr yn gymhleth ac mae rhai yn dadlau'n daer eu bod yn llesteirio datblygu yng Nghymru;
- maent yn creu rhaniad artiffisial ar gyfer cynlluniau dan 50 ac uwch na 50 Megawat ar gyfer prosiectau ar y tir. Mae'r ddwy gyfundrefn yn hollol wahanol;
- mae'r trefniadau ar wahân ar gyfer datblygu cysylltiedig yng Nghymru yn creu cymhlethdodau pellach gyda chyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y ddwy gyfundrefn gynllunio;
- bydd dwy ran o dair (mewn Megawat) o'r datblygiadau arfaethedig yn y system yn gynlluniau etifeddol o dan *Adran 36/Deddf Cynllunio 2008* ac yn cael eu penderfynu gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol/yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, yn hytrach nag yng Nghymru;
- dylai Cyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol/ yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ystyried Nodyn Cyngor Technegol 8/*Polisi Cynllunio Cymru*, ond ni ddylai gael mwy o flaenoriaeth na'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol - ond nid oes unrhyw brosiect wedi cyrraedd y cam hwnnw eto. Gellid cynnal achosion prawf/adolygiad barnwrol os yw'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cymeradwyo ffermydd gwynt mawr y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol;
- roedd safbwyntiau amrywiol ar yr angen i ddatganoli pwerau ynni ymhellach gyda rhai o blaid a rhai yn erbyn;
- mae rhai datblygwyr yn dweud nad yw mor bwysig iddynt pwy sy'n gwneud y penderfyniad - yr hyn maent am ei gael yw sicrwydd a chysondeb ac ar hyn o bryd nid yw llawer ohonynt wedi'u hargyhoeddi gan y ddadl dros ddatganoli pellach;
- mae datganoli pwerau ynni ymhellach yn cael ei drafod fel rhan o drafodaeth ehangach ar ddatganoli pellach - bydd hyn yn awr yn cael ei ystyried gan y Comisiwn Silk na fydd yn cyflwyno'i adroddiad tan 2014;
- pe bai'r broses o gydsynio ynni'n cael ei datganoli, mae rhai'n awgrymu y dylid sefydlu system gydsynio debyg i Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru gyda'r penderfyniad terfynol yn nwylo Gweinidogion Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddatganoli rhagor o bwerau cydsynio ynni. Byddai hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am gydsynio prosiectau ar y tir uwch na 50 Megawat ac uwch na 1 Megawat ar y môr (hyd at 100 Megawat yn y lle cyntaf neu i gyd), cydsyniadau'r grid trydan a Thystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy. Mae hefyd yn ceisio ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddatblygiadau porthladdoedd mawr. Un eithriad i hyn fyddai pŵer niwclear;
- mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellid rhoi tyrbinau gwynt yn unrhyw le ac y gellid anwybyddu ardaloedd chwilio strategol o dan y gyfundrefn gyfredol oherwydd bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn fwy o flaenoriaeth na *Pholisi Cynllunio Cymru/ Nodyn Cyngor Technegol 8*.

Barn y Pwyllgor

- rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i nodi sut bydd yn defnyddio unrhyw bwerau ychwanegol ym maes cydsynio ynni i roi proses unigol, dryloyw ac wedi'i symleiddio ar waith ar gyfer Cymru. Dyma un o argymhellion Ymchwiliad Cynllunio Pwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad ac mae'n bwysig egluro hyn;
- mae mwyafrif aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei chais am ddatganoli mwy o bwerau ynni. Yn ogystal â gwneud y system yn symlach ar gyfer datblygwyr, byddai hefyd yn helpu cymunedau lleol i fod yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth. Bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb gweld beth yw canlyniad yr ymchwiliad cyfredol gan y Pwyllgor Menter a Busnes i Borthladdoedd a Meysydd Awyr mawr a gweld a fydd y pwyllgor hwnnw o blaid datganoli cyfrifoldeb am ddatblygiadau porthladdoedd mawr;
- fodd bynnag, mae datganoli pellach o leiaf ychydig flynyddoedd i ffwrdd ac mae'n bwysig yn y cyfamser bod y systemau cynllunio a chydsynio ar gyfer prosiectau ar y tir hyd at 50 Megawat ac ar y môr hyd at 1 Megawat yn gweithio cystal â phosibl. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried newidiadau y gellid eu gwneud o fewn y fframwaith cyfredol i wella'r system gynllunio a bwriad Llywodraeth Cymru i adolygu cyfundrefnau cydsynio eraill ochr yn ochr â chyflwyno'r Corff Adnoddau Naturiol.

Argymhellion

Pennawd

8. Dylai Llywodraeth Cymru **gyhoeddi ei hachos dros ddatganoli ymhellach** bwerau cydsynio ynni a rhoi cymhellion ariannol.
9. Fel rhan o'i hachos, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno proses lle mae **Cyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol** yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried prosiectau seilwaith ynni mawr yng Nghymru, ond y dylai wneud ei **hargymhellion terfynol i Weinidogion Cymru** yn hytrach nag i Weinidogion y DU yn y dyfodol.

Cymysgedd Ynni

Barn rhanddeiliaid

- mae lle i ynni adnewyddadwy gymryd lle llawer o'r dulliau cynhyrchu trydan drud-ar-garbon cyfredol, ond nid yn y tymor byr. Mae angen cyfuno ffynonellau ynni adnewyddadwy'n llwyddiannus â dulliau o gynhyrchu trydan ar alw i fodloni'r galw a ragwelir yn llwyddiannus, am y deng mlynedd nesaf o leiaf;
- bydd y ddibyniaeth ar gyflenwadau confensiynol o nwy a glo yn parhau am y degawd nesaf o leiaf;
- ar hyn o bryd, gwynt ar y tir yw'r opsiwn amgen mwyaf economaidd hyfyw a all gyfrannu'n sylweddol hyd at 2020. Mae rhai rhanddeiliaid yn credu bod tuedd wedi bod o blaid technoleg gwynt sydd wedi golygu ei fod wedi datblygu'n fwy economaidd hyfyw;
- mae cyfraniad posibl gwynt ar y môr yn llawer iawn mwy na gwynt ar y tir a bydd y costau'n gostwng yn ôl pob tebyg;
- mae gan ynni tonnau a llanw'r môr botensial anhygoel o gwmpas Cymru (yn enwedig oddi ar Sir Benfro ac Ynys Môn), ond nid yw gosodiadau masnachol yn debygol cyn 2020. Mae gan yr Hafren hefyd botensial sylweddol, ond nid yw'n debygol o gyfrannu llawer yn y degawd nesaf;
- gall prosiectau microgynhyrchu ac ynni adnewyddadwy yn y gymuned wneud cyfraniad pwysig, yn enwedig gyda mwy o gymorth, ond ni allant gymryd lle prosiectau ynni adnewyddadwy mawr;
- mae gan ynni o wastraff gyfraniad, er mai'r flaenoriaeth ar gyfer y rhaglen gwastraff trefol yw annog aildefnyddio ac ailgylchu ac yn y tymor hirach bydd ynni o wastraff yn lleihau'n raddol wrth i wastraff gweddilliol ostwng. Mae rhai pryderon am effeithiau iechyd. Mae'r cyfraniad cyffredinol yn gymharol fach;
- treulio Anaerobig - y potensial i ddatblygu ymhellach ond mae'r cyfraniad cyffredinol ar hyn o bryd yn gymharol fach;
- ynni dŵr - mae storio pwmp yn bwysig yng Nghymru. Nid yw cynlluniau ynni dŵr mawr yn debygol o wneud cyfraniad sylweddol - ond mae cynlluniau llai yn bwysig i ymgysylltu â'r gymuned leol;
- niwclear - mae rhai'n dweud ei fod yn bwysig fel cyfraniad carbon isel i'r cymysgedd ynni a'i fod yn ffynhonnell swyddi bwysig ac maent yn cefnogi

safleoedd niwclear mewn safleoedd sy'n bodoli'n barod. Mae eraill yn bryderus am ddiogelwch a storio gwastraff yn yr hirdymor ac yn credu y dylid dod o hyd i opsiynau amgen.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- nod Llywodraeth Cymru yw bod holl anghenion ynni lleol fwy neu lai yn cael eu diwallu gan drydan carbon isel erbyn 2050, ond nid yw hyn yn bosibl yn y cyfnod cyn 2020;
- cefnogir cymysgedd o ffynonellau ynni adnewyddadwy gyda thargedau ar gyfer pob un;
- yn y tymor byr, bydd nwy confensiynol, niwclear a bio-ynni yn darparu'r ynni i wneud iawn am natur ysbeidiol ynni adnewyddadwy;
- bydd nwy confensiynol yn danwydd newydd yn y cyfnod pontio. Fodd bynnag, bydd dal a chadw carbon yn hollbwysig yn y tymor canolig;
- niwclear - mae cefnogaeth i ddatblygu safle niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli'n barod o ystyried yr angen brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ond nid yw o blaid datblygu safleoedd niwclear newydd.

Barn y Pwyllgor

- o ran yr ynni a gynhyrchir, mae llawer o'r cymysgedd ynni yn y dyfodol y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae diwygiadau Llywodraeth y DU i'r farchnad drydan yn hanfodol er mwyn darparu fframwaith sefydlog ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol;
- mae'r Pwyllgor yn cytuno â dull Llywodraeth Cymru o symud tuag at gynhyrchu cymaint â phosibl o drydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy/carbon isel ac mae'n croesawu'r eglurder a ddarparwyd ar y materion hyn yn natganiad *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*;
- mae'r rhan fwyaf o'r trydan yma'n debygol o ddeillio o wynt yn y cyfnod hyd at 2020;
- mae'n bwysig annog cymaint â phosibl o fathau eraill o ynni adnewyddadwy hyd at 50 Megawat, gan gynnwys microgynhyrchu ac ynni adnewyddadwy yn y gymuned, ynni dŵr, treulio anaerobig ac ynni o wastraff, er bod angen cydnabod na fydd y ffynonellau hyn gyda'i gilydd yn ddigon i gymryd lle'r ynni a gynhyrchir gan orsafoedd pŵer tanwydd ffosil mawr;
- mae'n bwysig iawn sicrhau y manteisir ar gyfleoedd ynni'r llanw/ynni'r tonnau;

- mae'n rhaid i'r dull hwn sicrhau bod Cymru'n cael y manteision economaidd gorau posibl a bod swyddi'n dod i Gymru;
- mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor o blaid safbwynt Llywodraeth Cymru ar bŵer niwclear – dim safleoedd newydd ond mae angen ymchwilio i botensial safleoedd sy'n bodoli'n barod gan fod niwclear yn ffurf cost isel o ynni carbon isel 'baslwyth' ac 'ar alw'. Mae dadleuon economaidd cadarn o blaid y dull hwn ac mae pryderon dros benderfyniad Horizon i dynnu'n ôl o Wylfa B.

Argymhellion

Pennawd

10. Ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod mecanweithiau'r farchnad a gynigir gan **Ddiwygiadau Llywodraeth y DU i'r Farchnad Drydan** yn cael eu rhoi ar waith yn fwy tryloyw ac yn gynt a sicrhau sefydlogrwydd yn y tymor hirach drwy gadarnhau'r newidiadau i'r gyfundrefn Tystysgrifau Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy y tu hwnt i 2017 cyn gynted â phosibl.
11. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i **ganfod a sicrhau datblygwr amgen** i ddatblygu cynigion ar gyfer adweithydd niwclear newydd yn **Wylfa B**.
12. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i **annog gwell cymysgedd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy o dan 50 Megawat** ar draws yr ystod lawn o fathau o dechnoleg a chynnwys cymaint o gynlluniau yn y gymuned â phosibl.

Manteision economaidd/cymorth ariannol

Barn rhanddeiliaid

- mae potensial economaidd sylweddol ar gyfer datblygu diwydiant ynni adnewyddadwy a gwasanaethau cymorth yng Nghymru;
- mae cefnogaeth a chymhellion Llywodraeth Cymru i dechnolegau newydd yn hanfodol;
- pwysigrwydd porthladdoedd – mynediad i ffermydd gwynt ar y môr ac ynni posibl o ffrydiau/tonnau llanw;
- yr angen am yr un chwarae teg o ran Tystysgrifau Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy fel y gall Cymru gystadlu â'r Alban ar gyfer prosiectau ynni'r tonnau/ynni'r llanw;
- mae datblygwyr yn dweud bod cynigion Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Farchnad Drydan, adolygiadau cyllid ac oedi yn creu ansicrwydd o fewn y diwydiant. Mae sefydliadau wedi galw am barhad o ran mecanweithiau ariannol;
- mae'r adolygiadau diweddar o Dariffau Cyflenwi Trydan wedi bod yn ergyd i ddiwydiant ynni'r haul;
- mae'r diffyg eglurder o ran rheolau cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd yn cael ei ystyried yn rhwystr i ddatblygiadau cymunedol;
- ardaloedd Menter: mae'n aneglur ar hyn o bryd pa gyfraniad y gallant ei wneud at y sector ynni ac mae'n bwysig osgoi mudo economaidd yn hytrach na thwf newydd;
- effaith economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth – mae safbwyntiau gwrthgyferbyniol a phrin yw'r dystiolaeth gyfredol ar y mater;
- mae angen gwneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd, yn enwedig yn y cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol a chyllid i gefnogi ymchwil ac arloesedd;
- mae awdurdodau lleol yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â Lloegr yn y gwaith o baratoi ar gyfer gweithredu'r Fargen Werdd;
- yr angen am ymdrech sylweddol i farchnata potensial Cymru fel lle ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd economaidd ynni. Mae'n nodi "Ein nod yw rhyddhau a defnyddio adnoddau ynni Cymru er mwyn sicrhau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf i Gymru". Mae'n pwysleisio'r angen i sicrhau bod busnesau yn cyflawni eu haddewid o ran swyddi, yr angen i adeiladu cadwyn gyflenwi gystadleuol, er mwyn rhyddhau adnoddau yng Nghymru ac allforio i weddill y DU ac yn fyd-eang;
- mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn "Sicrhau'r manteision mwyaf posibl i Gymru o ran swyddi a manteision economaidd ehangach ar bob cam datblygu tra'n sicrhau manteision hirdymor i'n cymunedau." A bydd yn "Gweithredu nawr er budd dyfodol hirdymor ynni Cymru drwy gefnogi arloesi, ymchwil, datblygu a masnacheiddio yn y meysydd sy'n cynnig y potensial mwyaf i sicrhau manteision hirdymor i Gymru."

Barn y Pwyllgor

- mae'r Pwyllgor yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru ar bwysigrwydd economaidd y sector ynni i Gymru;
- mae'n hollbwysig manteisio i'r eithaf ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn y cylch cyfredol a'r un nesaf (2014-2020) a chyllid ymchwil ac arloesi Ewropeaidd Horizon 2020 i gefnogi arloesedd a datblygiad yn y sector ynni.

Argymhellion

Pennawd

13. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynigion yn yr **adolygiad o Drwyddedau Ymrwymiad i Ynni Adnewyddadwy** ar gyfer **5 Trwydded ar gyfer prosiectau ynni'r tonnau ac ynni'r llanw'r môr** yng Nghymru yn cael eu gweithredu, er mwyn i Gymru gael yr un chwarae teg â'r Alban.
14. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i **Banel y Sector Ynni a'r Amgylchedd** i'w chynghori ar y ffordd orau o fanteisio ar gyfle'r cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i gefnogi darpariaeth seilwaith strategol ar gyfer y sector ynni yng Nghymru.
15. Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i **gefnogi arloesedd, ymchwil a datblygiad**, yn enwedig yn niwydiant newydd ynni'r tonnau/ynni'r llanw a dylai roi rhagor o anogaeth i gydweithio rhyngwladol a byd-eang ym meysydd

ymchwil a gweithgarwch arloesi sy'n ymwneud â thechnolegau ynni adnewyddadwy newydd.

16. dylai Llywodraeth Cymru egluro'n fanwl cyn diwedd 2012 sut bydd yr **Ardaloedd Menter ynni** yn gweithredu a'r cymhellion ariannol a chynllunio a fydd yn cael eu cynnig.
17. dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i **baratoi ar gyfer y Fargen Werdd**, gan ddefnyddio enghreifftiau o arferion da yn Lloegr fel esiampl.
18. dylai Llywodraeth Cymru **gomisiynu ymchwil** i fesur **effaith economaidd ffermydd gwynt** a'r seilwaith grid cysylltiedig ar y diwydiant **twristiaeth** yng Nghymru.

Targedau Ynni Adnewyddadwy

Barn Rhanddeiliaid

- mae targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol, ond mae rhai rhanddeiliaid (yn enwedig datblygwyr) yn credu nad ydynt yn ddigon clir neu nad ydynt yn realistig mewn ambell achos;
- mae rhai'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynlluniau gweithredu manylach ar sut bydd y targedau'n cael eu cyflawni ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd tuag at y targedau hyn. Mae cymariaethau'n cael eu gwneud â lefel y manylder a ddarperir gan *2020 Routemap for Renewable Energy* Llywodraeth yr Alban;
- bu cynnydd sylweddol yn y targed ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir - o 800 Megawat ychwanegol yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol yn 2005 i 1.7 gigawat yn 2011;
- mae'r targed ar gyfer ynni'r tonnau/ynni'r llanw (4 gigawat erbyn 2025) yn cael ei ystyried yn uchelgeisiol iawn ac efallai y bydd angen ei adolygu;
- mae peth ansicrwydd ynglŷn â beth yw'r targed ar gyfer cynlluniau cymunedol/ microgynhyrchu a beth sydd wedi'i gynnwys yn hwn. A yw'r targed 300 megawat ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt ar y tir hyd at 25 megawat y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol yn cynnwys yr hyn sydd eisoes wedi'i gydsynio?
- mae'r targedau manwl yng Nghynllun Gweithredu Microgynhyrchu 2007 wedi'u disodli yn ôl Llywodraeth Cymru, ond nid yw'n glir beth sydd wedi cymryd eu lle;
- arweiniodd Datganiad y Prif Weinidog ym mis Mehefin 2011 a'r llythyr dilynol gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ym mis Gorffennaf 2011 beth ansicrwydd am dargedu/capaciti ffermydd gwynt ar y tir yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol;
- nid oedd rhai o'r cymunedau a'r bobl a oedd yn cael eu heffeithio gan dargedau ffermydd gwynt ar y tir a'r dull Ardal Chwilio Strategol yn hollol ymwybodol o'u goblygiadau tan i'r ymgynghoriad ar atgyfnerthu'r grid ddechrau.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae targedau ynni adnewyddadwy wedi'u diweddarau drwy Ddatganiad Polisi Ynni 2010 a diwygiadau dilynol i *Bolisi Cynllunio Cymru*;

- mae'r targedau'n uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy ac maent yn bwysig os yw Cymru am gyfrannu at darged ynni adnewyddadwy a gostwng allyriadau carbon 2020 yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd gweledigaeth a fframwaith cydlynol ar gyfer buddsoddwyr a chymunedau;
- yn Natganiad y Prif Weinidog ym mis Mehefin 2011 a'r llythyr dilynol gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, gosodwyd trothwy ar gapasiti ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod datblygiadau o fewn yr Ardaloedd Chwilio Strategol yn gytbwys ac yn gymesur a bydd yn osgoi'r angen i atgyfnerthu'r grid yn sylweddol;
- fodd bynnag, mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn nodi bod angen buddsoddi, atgyfnerthu ac uwchraddio'r seilwaith ynni yng Nghymru ac y dylid cefnogi datblygiadau ynni yn hytrach na'u hoedi gyda gwelliannau i'r grid.

Barn y Pwyllgor

- er bod *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn ddatganiad lefel uchel pwysig, nid yw'n datrys y dryswch ynghylch beth yn union yw targedau Llywodraeth Cymru ac mae cryn amheuaeth ynglŷn ag a ellir eu cyflawni o fewn yr amserlenni a nodwyd. Mae angen mwy o fanylion am sut y gellir cyflawni'r targedau ar gyfer gwahanol sectorau ynghyd â threfniadau monitro rheolaidd;
- mae rhai o'r targedau'n rhai tymor byr ar y cyfan ac nid yw'n glir beth fydd yn digwydd y tu hwnt i'r dyddiadau hyn;
- mae'r targed ar gyfer ynni'r tonnau/ynni'r llanw (4 gigawat erbyn 2025) yn arbennig o uchelgeisiol o ystyried ei fod yn dibynnu ar gyflwyno prosiect ynni'r llanw mawr ar yr Hafren;
- mae Datganiad y Prif Weinidog a'r llythyr dilynol gan Weinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn 2011 wedi rhoi trothwy ar gapasiti ffermydd gwynt ar y tir ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol ac mae hyn i'w groesawu, ond maent hefyd wedi creu cryn ansicrwydd a dryswch i ddatblygwyr a chymunedau.

Argymhellion

Pennawd

19. Er mwyn ategu *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* a'r rhaglen ynni gysylltiedig, dylai Llywodraeth Cymru lunio **Cynllun Gweithredu manwl** erbyn **diwedd 2012** gyda manylion y camau penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac

eraill i gyflawni'r targedau ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy.

20. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi **adroddiad monitro blynyddol** sy'n nodi **cynnydd tuag at dargedau** ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy a dylai hyn gynnwys esboniad o'r rhesymau dros unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r targedau hyn y gallai eu gwneud.
21. Fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl (gweler argymhelliad 19) uchod, dylai Llywodraeth Cymru:
 - ddarparu gwybodaeth gadarn am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy cyfredol ac arfaethedig yng Nghymru;
 - adolygu targed 2025 ar gyfer ynni'r tonnau/ynni'r llanw;
 - egluro'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y targed 300 megawat ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar y tir rhwng 5 a 25 megawat y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sut bydd hyn yn cael ei fonitro;
 - ystyried yr angen am darged tymor hirach ar gyfer gwynt ar y môr y tu hwnt i 2015/16.

Y broses gynllunio a chydysnio

Barn Rhanddeiliaid

- mae'r broses yng Nghymru o gydsynio prosiectau yn gymhleth iawn er gwaethaf y newidiadau a gyflwynwyd gan *Ddeddf Cynllunio 2008* a *Deddf Lleoliaeth 2011* a cheir elfennau cymhlethach fyth yn achos prosiectau ynni ar y môr (gweler y tabl yn Atodiad A);
- o ystyried y trefniadau datganoli ar gyfer cynllunio, mae'n bosibl y gallai datblygiad cysylltiedig sy'n seiliedig ar bolisi cynllunio Cymru gael ei wrthod ar ôl i'r Prosiect Seilwaith Strategol Cenedlaethol cysylltiedig ar sail y Datganiad Polisi Cenedlaethol gael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol;
- mae cydsynio a chaniatáu amgylcheddol yn brosesau ar wahân ond gellid eu symleiddio/cyfuno/rhedeg ochr yn ochr, er bod angen hyblygrwydd gan y bydd angen cydsyniad mewn egwyddor o bryd i'w gilydd ar ddatblygwyr cyn iddynt allu ymrwymo arian i ddarparu gwybodaeth ddigonol at ddibenion caniatáu;
- mae datblygwyr yn beio awdurdodau cynllunio lleol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru am oedi cynlluniau. Mae awdurdodau cynllunio lleol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn dweud nad yw datblygwyr yn darparu gwybodaeth ddigonol a/neu nad ydynt yn mynd i'r afael â materion effaith gronnol. Cafwyd anghytuno gydol yr ymchwiliad ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y cyfryw oedi;
- hyd yma, cafwyd diffyg apelau methu penderfynu ar gyfer prosiectau ynni;
- cafwyd enghreifftiau o arferion da o ddwyn datblygwyr/partïon eraill ynghyd yn gynnar;
- mae rhai'n awgrymu y dylid pennu terfynau amser ar gyfer ymateb i geisiadau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, oherwydd gall oedi wrth ymateb achosi problemau sylweddol i ddatblygwyr. Ystyrir bod y cyrff cyfatebol yn yr Alban yn llawer mwy cadarnhaol am ynni adnewyddadwy.
- rhai pryderon am rôl y Corff Adnoddau Naturiol newydd ym maes cydsynio.
 - Sut byddai anghytuno fel yr hyn a gafwyd ynghylch Gorsaf Bêr Penfro yn cael ei ddatrys? Mae gan y ddau sefydliad (Cyngor Cefn

Gwlad Cymru/ Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) ddiwylliannau gwahanol iawn;

- sut bydd rôl Comisiwn Coedwigaeth Cymru fel rheolwr tir/darparwr safleoedd yn cael ei chadw hyd braich?
- mynediad i arbenigedd technegol y tu allan i Gymru (e.e. yng ngweddill Asiantaeth yr Amgylchedd).
- byddai gweithdrefn symlach a chynt o gydsynio prototeipiau morol yn ddymunol, ond mae rhai pryderon am effaith bosibl prototeipiau o'r fath ar yr amgylchedd morol;
- awgrymodd llawer o dystion bod y broses gynllunio a chydsynio yn symlach a chynt yn yr Alban;
- nid cyflymder cymeradwyo yw'r unig faen prawf i fesur llwyddiant;
- mae rhai Cyngorau Tref a Chymuned yn dweud nad oes digon o ymgynghori â nhw ar geisiadau cynllunio.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn cydnabod bod angen gwella'r gyfundrefn gynllunio a chydsynio. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil (Adroddiad Hyder) i adolygu systemau cydsynio ynni cyfredol ac mae wedi ymrwmo i gyflwyno newidiadau i symleiddio prosesau cynllunio a chydsynio erbyn mis Ebrill 2013;
- mae sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol yn gyfle i sicrhau bod y cyngor a roddir i ymgeiswyr cyn cyflwyno eu cais yn adeiladol ac ystyried ffyrdd gwell o integreiddio'r cyfundrefnau cynllunio a chydsynio;
- bydd y Llywodraeth hefyd yn llunio Papur Gwyn ar Gynllunio yn 2013 cyn y Bil Cynllunio yn 2015-2016 i gyflwyno newidiadau pellach, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y lefel briodol ynglŷn â phrosiectau ynni hyd at 50 Megawat, a allai fod yn rhanbarthol neu'n genedlaethol.

Barn y Pwyllgor

- mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r angen i wella'r system gynllunio a chydsynio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 50 Megawat yng Nghymru. Mae'n bwysig gallu penderfynu ar geisiadau un ffordd neu'r llall yn gynt nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried bod adroddiad Hyder yn ddarn pwysig o waith gan fod y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth anghyson ynglŷn â phwy sydd ar fai am yr oedi wrth benderfynu ar brosiectau. Nid ydym yn derbyn y dadansoddiad gor-sympl bod y system bob amser yn gweithio'n well yn yr Alban. Fodd bynnag, credwn fod peth o'r oedi yng

Nghymru yn deillio o amharodrwydd awdurdodau cynllunio lleol ac eraill i wneud penderfyniadau anodd. Mae angen clirio'r ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir cyn gynted â phosibl;

- mae'r diffyg apelau methu penderfynu ym maes prosiectau ynni yn dangos nad yw'r system gyfredol yn gweithio yn ôl y bwriad, oherwydd bod datblygwyr yn amharod i gymryd y cam hwn mae'n debyg os ydynt yn dal i aros am benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau eraill gyda'r un awdurdod;
- mae angen i unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn gynllunio a chydysnio gael eu datblygu ochr yn ochr â'r pethau allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i'w gwneud er mwyn sicrhau bod cymunedau yn elwa ar ddatblygiadau ynni (*gweler Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* – tudalen 18);
- bydd sefydlu'r Corff Adnoddau Naturiol ym mis Ebrill 2013 yn gyfle pwysig i sicrhau bod dull mwy cydlynol a symlach o ystyried prosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys pennu targedau ar gyfer yr amser a gymerir i ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau ynni;
- mae'r Pwyllgor eisoes wedi gwneud argymhellion ynglŷn â'r achos busnes ar gyfer y corff arfaethedig. Mae wedi pwysleisio pwysigrwydd creu diwylliant sefydliadol newydd a chydlynol a sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i wahanu ei swyddogaethau caniatáu a chynghori. Mewn Cyfarfod Llawn ar 22 Mai 2012, cytunodd y Cynulliad ar ddiwygiad i gynnig y llywodraeth gan nodi canlyniadau'r ymgynghoriad ar y corff newydd. Mae'r diwygiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan y corff newydd fesurau diogelwch digonol os bydd achos o wrthdaro buddiannau rhwng perchnogaeth tir a threfniadau cydsynio Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ynni ar y tir hwnnw.

Argymhellion

Pennawd

22. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu cyflwyniad system sy'n **integreiddio systemau cynllunio a chaniatáu amgylcheddol yn well** yng Nghymru cyn cyflwyno system newydd yn llawn ym mis Ebrill 2013. Dylai system o'r fath fod yn ddigon hyblyg i gynnig dewis o ran pa lwybr caniatáu sy'n fwyaf addas ar gyfer pob prosiect.
23. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu gwelliannau i'r **systemau cynllunio a chydysnio cyfredol** ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hyd at 50 Megawat sy'n deillio o adroddiad Hyder, nad oes angen deddfwriaeth newydd ar eu cyfer, cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.

24. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **siop un stop ar gyfer cyngor** i fusnesau a grwpiau cymunedol i'w helpu drwy'r prosesau cynllunio/cydsynio ynni adnewyddadwy. Gallai'r tîm ynni adnewyddadwy canolog (gweler argymhelliad 31) ddarparu hyn.
25. Dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau wedi'u targedu pellach ar sut i asesu **effaith gronol ffermydd gwynt ar y tir yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol** (mae paragraff 12.8.2 *Polisi Cynllunio Cymru* yn nodi y bydd yn ystyried llunio canllawiau wedi'u targedu pellach).
26. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod **ail gyfnod ymchwil Hyder** yn ystyried **ceisiadau ynni na chafwyd penderfyniad yn eu cylch eto**, ynghyd â'r rhai y penderfynwyd yn eu cylch eisoes.
27. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofyniad fel mai **un datganiad amgylcheddol** sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio a chaniatáu amgylcheddol.
28. Fel rhan o amlinellu'r achos dros ddatganoli pellach (gweler argymhelliad 8), dylai Llywodraeth Cymru gynnig bod unrhyw **ddatblygiad cysylltiedig** hefyd yn cael ei **ystyried ochr yn ochr â'r prif brosiect gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol** o dan unrhyw drefniadau newydd.
29. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu **argymhellion y Pwyllgor** a wnaed yn ei adroddiad ar yr **achos busnes dros Un Corff Amgylcheddol**.
30. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda'r **Comisiwn Cynllunio Seilwaith** yn parhau i fod yn gymwys ar ôl ei ddisodli gan Gyfarwyddiaeth y Seilwaith Cenedlaethol.

Adnoddau/arbenigedd

Barn Rhanddeiliaid

- mae rhai o'r farn nad yw awdurdodau lleol yn darparu digon o adnoddau i ymdrin ag ynni adnewyddadwy - o safbwynt cynllunio a datblygu cynaliadwy;
- hefyd, nid oes gan rai awdurdodau lleol yr arbenigedd angenrheidiol i ymdrin ag agweddau technegol ar ynni adnewyddadwy a thechnolegau newydd;
- mae mwy o gyfle i rannu/cronni adnoddau ac arbenigedd gan awdurdodau cynllunio lleol wrth ymdrin â cheisiadau ynni adnewyddadwy;
- mae rhai'n ystyried y dylid penodi tîm o 'arbenigwyr' wedi'u neilltuo ar lefel Cymru gyfan i gynorthwyo gyda cheisiadau cynllunio/cydsynio;
- mae cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer un ffynhonnell o arbenigedd (e.e. ynni o wastraff) yn ddefnyddiol;
- nid oes gan awdurdodau cynllunio lleol adnoddau i gynnal ymgynghoriadau cyn ymgeisio o dan gyfundrefn *Deddf Cynllunio 2008*. Mae hyn yn effeithio'n fwy ar rai awdurdodau nag eraill;
- hefyd, nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn derbyn incwm ffi ar gyfer rhoi sylwadau ar geisiadau o dan *Ddeddf Cynllunio 2008* - mae Llywodraeth Cymru yn darparu peth cyllid;
- mae rhai o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfrannu digon o adnoddau at y gwaith hwn, o safbwynt cynllunio nac o safbwynt economaidd;
- mae rhai'n cwestiynu a oes gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ddigon o adnoddau/arbenigedd i ymdrin â chydsynio ynni adnewyddadwy ar hyn o bryd ac am gael gwybod sut bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghynigion y Corff Adnoddau Naturiol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae Llywodraeth Cymru yn hyderus bod ganddi'r adnoddau a'r arbenigedd i ddarparu ei rhaglen ynni;
- nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn bod gan awdurdodau lleol broblem capasiti, er ei bod yn cynnig cymorth grant i helpu i ddarparu arbenigedd technegol ychwanegol. Mae hefyd yn awyddus i annog mwy o gydweithredu a chydweithio yn unol ag agenda Simpson;

- mae wedi llunio ystod o gyfarwyddyd ymarfer i helpu awdurdodau i ymdrin â thechnolegau ynni adnewyddadwy penodol ac i'w helpu i baratoi Aseidiadau Ynni Adnewyddadwy ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol;
- bydd y Corff Adnoddau Naturiol newydd yn llwyddiannus os caiff ei ystyried fel hyrwyddwr ynni adnewyddadwy cynaliadwy, a hynny yn ei ddarpariaeth uniongyrchol a thrwy ei waith ehangach.

Barn y Pwyllgor

- mae'r Pwyllgor yn credu bod gan rai awdurdodau cynllunio lleol broblemau adnoddau, er bod hyn yn fwy i wneud ag arbenigedd technegol annigonol na diffyg capasiti cyffredinol. Dylai adroddiad Hyder helpu i nodi maint y broblem;
- mae'r diffyg incwm ffi ar gyfer ymdrin â cheisiadau etifeddol o dan *Adran 36 a Deddf Cynllunio 2008* wedi creu problemau o ran adnoddau, yn enwedig i rai awdurdodau sydd â mwy o waith nag eraill. Gall y ffioedd cynllunio uchel hefyd fod yn faen tramgwydd i rai prosiectau ynni adnewyddadwy llai yn y gymuned;
- mae'n bwysig bod adnoddau digonol ar gael i'r Corff Adnoddau Naturiol newydd er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymdrin yn gyflym ac effeithiol â'i rôl wrth ystyried prosiectau ynni a bod trefniadau pontio cadarn ar waith yn y cyfnod hyd at fis Ebrill 2013.

Argymhellion

Pennawd

31. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **tîm canolog ag arbenigedd penodol mewn technolegau ynni adnewyddadwy**. Dylai'r tîm hwn fod ar gael i awdurdodau cynllunio lleol i'w cynorthwyo i ymdrin â cheisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau *Deddf Cynllunio 2008*, yn enwedig er mwyn helpu'r awdurdodau hynny i ymdrin â cheisiadau sy'n ymwneud â thechnolegau newydd.
32. Hyd nes y sefydlir y tîm canolog, dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu **cymorth grant i awdurdodau cynllunio lleol** i'w cynorthwyo i **brynu arbenigedd technegol**.
33. Dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad gwaith rhanbarthol a **rhannu arbenigedd**.

34. Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno **terfyn ar ffioedd ceisiadau cynllunio** ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a **arweinir gan y gymuned**.
35. Dylai Llywodraeth Cymru annog defnydd pellach o **gytundebau perfformiad cynllunio** gyda datblygwyr fel ffordd amgen o ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer ymdrin â phrosiectau ynni mawr (e.e. fel y cytunwyd rhwng Cyngor Ynys Môn a Horizon Nuclear Power).
36. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **tîm ynni wedi'i neilltuo o fewn y Corff Adnoddau Naturiol** a sicrhau bod gan y tîm ddigon o adnoddau a ffocws i ymdrin â'i rôl ddeuol fel ymgynghorai statudol a chorff sy'n rhoi caniatâd amgylcheddol.

Polisi Cynllunio

Barn Rhanddeiliaid

- er bod *Polisi Cynllunio Cymru* wedi'i ddiweddarau yn 2011 i ystyried Datganiad Polisi Ynni Carbon Isel 2010, prin yw'r awdurdodau lleol hyd yma sydd â chynlluniau datblygu cyfoes sy'n adlewyrchu polisi a thargedau cenedlaethol;
- cred rhai datblygwyr fod 'dolen wan' rhwng Nodyn Cyngor Technegol 8 / *Polisi Cynllunio Cymru* a chynlluniau datblygu lleol;
- awgrymir bod angen Canllawiau Cynllunio Atodol/Interim lle nad oes cynllun cyfoes;
- yr angen posibl am haen ranbarthol o bolisi cynllunio;
- diffyg eglurder am rôl cynllun adnoddau cenedlaethol a sut bydd hyn yn cyfrannu at y system cynllun datblygu;
- diffyg polisiâu/canllawiau ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt ar y tir hyd at 25 Megawat y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol. Cyfle cyfyngedig i gynlluniau o'r fath bellach;
- mae'n bwysig sefydlu perthynas rhwng cynllunio morol a daearol.

Barn Llywodraeth Cymru

- mae'r Gweinidog yn dweud bod y Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu hyd yma yn gyson â pholisi cenedlaethol ar ynni adnewyddadwy;
- mae'r Gweinidog wedi awgrymu y gallai'r lefel briodol o wneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau ynni hyd at 50 megawat fod yn rhanbarthol neu'n genedlaethol. Mae dull 'dinas-ranbarth' o gynllunio wedi'i grybwyll hefyd. Mae adolygiad o'r system gynllunio gyfan ar waith cyn cyhoeddi Papur Gwyn yn 2013 ar Fil Cynllunio arfaethedig ar gyfer Cymru;
- yn ôl *Polisi Cynllunio Cymru*, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol lunio Aseiad o Ynni Adnewyddadwy fel rhan o'u paratodau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol - mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau ar sut i'w paratoi. Mae rhai awdurdodau eisoes wedi llunio'r rhain;
- yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynnwys rhagdybiaeth o blaid Datblygu Cynaliadwy ym *Mholisi Cynllunio Cymru* o dan amgylchiadau lle nad oes cynllun datblygu ar waith neu lle mae polisiâu

mewn cynlluniau a fabwysiadwyd wedi dyddio neu wedi'u disodli gan ystyriaethau perthnasol eraill fel polisi cynllunio cenedlaethol.

Barn y Pwyllgor

- nid yw'r system cynllun datblygu cyfredol yn gweithio fel y dylai hyd yma o safbwynt datblygu prosiectau ynni yng Nghymru. Mae angen fframwaith cynllunio polisi cynllunio cyson ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy ac ynni eraill ledled Cymru, yn seiliedig ar gynlluniau lefel rhanbarthol o bosibl, ac mae angen i gymunedau lleol ei ddeall hefyd. Mae'r system gyfredol o gynlluniau datblygu heb eu cydlynu ar y cyfan sy'n cael eu llunio i wahanol amserlenni ledled y 25 awdurdod cynllunio lleol wedi methu gwneud hyn hyd yma;
- yn y tymor byr, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn cwblhau Aseidiadau o Ynni Adnewyddadwy ar sail tystiolaeth sy'n seiliedig ar gyfarwyddyd ymarfer Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os yw'r Cynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi'u datblygu gryn dipyn;
- mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r 'rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy' a gynigiwyd yn wreiddiol gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Trydydd Cynulliad, gan y bydd yn rhoi mwy o bwys i bolisïau cynllunio cenedlaethol lle nad oes cynllun datblygu'n bodoli ar hyn o bryd.

Argymhellion

Pennawd

37. Fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o'r system gynllunio, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gall fynd ati'n gyflym i **ddarparu fframwaith polisi cynllunio lleol neu ranbarthol cyson ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ynni adnewyddadwy neu ynni arall y gall cymunedau lleol ei ddeall ac ymgysylltu'n gyson ag ef.**
38. Yn dilyn ei hymgyngoriad diweddar ar 'ragdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy', dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio *Polisi Cynllunio Cymru* erbyn diwedd 2012 er mwyn **rhoi mwy o bwys i bolisïau cynllunio cenedlaethol** o dan amgylchiadau lle nad oes cynlluniau datblygu cyfoes ar waith.
39. Yn y tymor byr, dylai Llywodraeth Cymru annog grwpiau unigol neu ranbarthol o awdurdodau cynllunio lleol i roi blaenoriaeth i baratoi **Aseidiadau o Ynni Adnewyddadwy** yn seiliedig ar gyfarwyddyd ymarfer Llywodraeth Cymru, hyd yn oed os yw'r Cynlluniau Datblygu Lleol eisoes wedi'u datblygu cryn dipyn.

40. Lle nad oes cynllun datblygu cyfoes, dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau cynllunio lleol i **baratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ffurfiol**, ar ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd, gan adeiladu ar eu Hasesiadau o Ynni Adnewyddadwy.
41. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd y **Cynllun Adnoddau Naturiol** arfaethedig yn cael ei integreiddio gydag unrhyw newidiadau a wneir i'r system cynllun datblygu a beth yw'r cysylltiad rhwng y cynllun newydd hwn a **Chynllun Gofodol Cymru**.

Nodyn Cyngor Technegol 8

Barn Rhanddeiliaid

- safbwyntiau amrywiol iawn ar yr angen i adolygu/adnewyddu Nodyn Cyngor Technegol 8;
- mae rhai'n dweud bod angen adolygiad llawn oherwydd newidiadau mewn technoleg ers 2005 (tyrbinau gwynt mwy) ac nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effaith ar y dirwedd, a hefyd oherwydd ansicrwydd am dargedau a diffyg cydnabyddiaeth i faterion cronol am y grid, trafniadaeth a'r effaith ar dwristiaeth;
- mae eraill yn dweud ei fod yn darparu fframwaith strategol pwysig a bod y diweddariad diweddar i *Bolisi Cynllunio Cymru* a thargedau yn ogystal â'r esboniad am y lefelau capasiti uchaf gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2011 yn ddigonol;
- mae rhai datblygwyr hefyd am weld newidiadau i gynyddu'r targedau, caniatáu mwy o hyblygrwydd, nodi Ardaloedd Chwilio Strategol newydd – maent yn dadlau bod yr Ardaloedd Chwilio Strategol bellach bron i gyd wedi'u neilltuo;
- cyflwynwyd Nodyn Cyngor Technegol 8 (2005) cyn Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru (2010) – awgrymir y dylid bod wedi cyflwyno'r polisi yn gyntaf;
- cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr ym mis Chwefror 2011 yn diweddarau rhannau o Nodyn Cyngor Technegol 8, er nad oes adolygiad ffurfiol wedi'i gynnal;
- mynegwyd pryderon am ba mor ddigonol oedd yr ymgynghoriad gwreiddiol ar Nodyn Cyngor Technegol 8 ac i ba raddau yr ystyriwyd pryderon pobl am ffermydd gwynt;
- mae gwahanol farn ar ba raddau y cafodd/y gellid bod wedi cynnwys effeithiau cronol yn Nodyn Cyngor Technegol 8;
- ystyriwyd peth gwybodaeth gyffredinol am dirwedd gan yr ymgynghorwyr wrth nodi Ardaloedd Chwilio Strategol yn y lle cyntaf ar gyfer Nodyn Cyngor Technegol 8. Fodd bynnag, gadawyd rhai materion tirwedd i'w hystyried mewn astudiaethau mireinio diweddarach. Nid oedd data LANDMAP manwl Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar gael yn 2005;

- 'Ardaloedd chwilio' yw Ardaloedd Chwilio Strategol a ddylai gael eu mireinio gan awdurdodau cynllunio lleol ac ni fydd yr holl gynigion ynddynt yn dderbyniol;
- mae rhai yn cwestiynu ai Nodyn Cyngor Technegol yw'r lle mwyaf priodol ar gyfer polisi gofodol ar wynt - mae rhai'n awgrymu y dylai fod yn rhan o *Bolisi Cynllunio Cymru*;
- mae cwestiynau wedi'u codi am y gofyniad am Asesiadau Amgylcheddol Strategol a statws cyfreithiol Nodyn Cyngor Technegol 8. Mae cynlluniau datblygu lleol yn amodol ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac mae ceisiadau unigol am ffermydd gwynt ar y tir yn amodol fel arfer ar Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
- mae rhai enghreifftiau Ewropeaidd eraill o bolisiau crynodiad gofodol ar gyfer ffermydd gwynt yn bodoli.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i Nodyn Cyngor Technegol 8 a'r dull Ardal Chwilio Strategol. Mae'n pwysleisio ei bod yn bwysig cofio bod Nodyn Cyngor Technegol 8 yn ymwneud â mwy na ffermydd gwynt ar y tir yn unig, a'i fod yn cynnwys pob math o ynni adnewyddadwy;
- cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol ynghylch Nodyn Cyngor Technegol 8 yn 2005 gyda thros 1,700 o ymatebion dros gyfnod o bedwar mis;
- cytunodd Llywodraeth flaenorol Cymru i adnewyddu Nodyn Cyngor Technegol 8 - gwnaed hyn drwy ddiwygio *Polisi Cynllunio Cymru* a llythyr dilynol yn diweddarau rhannau o Nodyn Cyngor Technegol 8;
- mae llythyr y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2011 wedi cyflwyno lefelau capasiti uchaf ar gyfer yr Ardaloedd Chwilio Strategol, ar sail gwaith yr ymgynghorwyr Garrad Hassan;
- dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor nad oes gan Nodyn Cyngor Technegol 8 rym gwirioneddol ar gyfer prosiectau sy'n uwch na 50 Megawat ac y gallai Datganiadau Polisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU ar ynni arwain at adeiladu ffermydd gwynt mawr unrhyw le yng Nghymru.

Barn y Pwyllgor

- mae'r Pwyllgor yn deall pryderon cymunedau ledled Cymru am effaith cynigion i ddatblygu ffermydd gwynt ar y tir a'r seilwaith cysylltiedig. Nid yw'r pryderon hyn wedi'u lleddfu gan yr oedi hir cyn gwneud

penderfyniadau ar nifer sylweddol o brosiectau sydd wedi cynyddu'r ansicrwydd a gadael cymunedau'n amheus o'r hyn sy'n cael ei gynllunio a'i effaith debygol;

- mae'r ffaith y bydd penderfyniadau am tua dau o bob tri chais yn cael eu gwneud y tu allan i Gymru, lle bydd Datganiadau Polisi Cenedlaethol Llywodraeth y DU yn cael blaenoriaeth dros Nodyn Cyngor Technegol 8, yn achosi ansicrwydd pellach;
- rydym yn cytuno bod elfennau technegol o Nodyn Cyngor Technegol 8 bellach wedi dyddio ac nad yw llythyr y Gweinidog ym mis Chwefror 2011 wedi mynd i'r afael â'r rhain i gyd. Er enghraifft, nid yw Atodiad C y Nodyn Cyngor Technegol yn adlewyrchu'n llawn newidiadau mewn technoleg adnewyddadwy ers 2005 na'r wybodaeth ddiweddaraf am y gost o osod cysylltiadau â'r grid o dan ddaear;
- ar hyn o bryd, mae'r system gynllunio yng Nghymru yn cael ei gweddnewid yn sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adolygu systemau cydsynio ynni cyfredol a chyflwyno newidiadau i symleiddio prosesau cynllunio a chydsynio erbyn mis Ebrill 2013 ac rydym yn disgwyl iddi gyflawni'r ymrwymiad hwn;
- yn ogystal â hyn, mae gwaith yn cael ei wneud ymlaen llaw cyn cyhoeddi Papur Gwyn ar Fil Cynllunio yn 2013. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r Fframwaith Amgylchedd Naturiol, yn dechrau gwaith y flwyddyn nesaf ar Gynllun Adnoddau Naturiol newydd i gyfleu ei blaenoriaethau a'i dyheadau ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gyfrannu'n weithredol at graffu ar y ddeddfwriaeth gynllunio newydd ac unrhyw newidiadau dilynol i drefniadau ar gyfer cynllunio prosiectau ynni. Rydym yn annog y Llywodraeth i gadw at ei hamserlen ar gyfer y Papur Gwyn a'r Bil Cynllunio dilynol. Byddem yn bryderus pe bai unrhyw oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon;
- o ystyried y cyd-destun hwn, barn y mwyafrif o'r Pwyllgor yw na fyddai newid y polisi cynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy yn briodol ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried y newidiadau mawr sydd ar y gweill i'r system gynllunio a'r ôl-groniad cyfredol o geisiadau;
- mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor o'r farn mai ffermydd gwynt ar y tir yw'r unig opsiwn amgen hyfyw y gellir ei weithredu mewn pryd ac sydd ar y raddfa iawn o ystyried brys yr agenda ynni adnewyddadwy;
- mae rhai datblygwyr wedi galw am fwy o hyblygrwydd neu am nodi mwy o ardaloedd chwilio, ond unwaith eto, mae'r Pwyllgor o'r farn bod unrhyw newidiadau i dargedau cyfredol a'r dull gofodol cyfredol yn amhriodol o

ystyried y newidiadau sydd ar y gweill i'r system gynllunio a'r ôl-groniad o geisiadau cyfredol;

- mae cymunedau a phobl leol wedi mynegi pryderon dilys am sut yr aethpwyd i'r afael ag ymgynghoriadau gan lywodraethau blaenorol ar gyflwyno polisiau ynni newydd yn y gorffennol. Rydym hefyd yn cydnabod y bu diffyg ymgysylltu â chymunedau gan rai datblygwyr - mawr a bach. Mae angen dysgu gwersi o hyn wrth symud ymlaen. Yn benodol, mae'n rhaid ymgysylltu â'r gymuned a sicrhau buddiannau cadarnhaol hirdymor yn llawer cynt yn y dyfodol;
- mae'r Pwyllgor yn credu y bydd Nodyn Cyngor Technegol 8, y newidiadau diweddaraf i *Bolisi Cynllunio Cymru* a'r datganiadau dilynol am lefelau capasiti uchaf Ardaloedd Chwilio Strategol yn ystyriaethau perthnasol mewn ceisiadau etifeddol o dan *Adran 36* a *Deddf Cynllunio 2008*. Mae penderfyniad diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol ar fferm wynt Pen y Cymoedd yn cadarnhau hyn.

Argymhellion

Pennawd

42. Ar ôl cwblhau'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i drawsnewid yn llwyr y system gynllunio yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru **ystyried a oes angen iddi ddiwygio ei pholisiau cynllunio ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy**. Wrth bwysu a mesur hyn, dylai ystyried:
- canlyniad yr ôl-groniad cyfredol o geisiadau ffermydd gwynt ar y tir nad oes penderfyniadau wedi'u gwneud yn eu cylch;
 - y cynnydd sydd wedi'i wneud yn gweithredu pob math arall o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cylch cyfredol o gynigion am ffermydd gwynt ar y môr;
 - y Cynllun Adnoddau Naturiol newydd ar gyfer Cymru.
 - unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei phenderfyniad, dylai gyhoeddi cyfiawnhad llawn ar gyfer y dull y bydd wedi penderfynu ei ddewis.
43. Fel rhan o **adroddiad monitro blynyddol** sy'n **nodi cynnydd tuag at y targedau** ar gyfer pob math o ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 20), dylai Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad manwl o **gynnydd yn y gwaith o ddatblygu ynni gwynt ar y tir** ar gyfer pob **Ardal Chwilio Strategol**, o gymharu â'u lefelau **capasiti uchaf**.

Trafnidiaeth

Barn y Rhanddeiliaid

- mae'r Cynllun Strategol drafft ar Reoli Trafnidiaeth wedi'i lunio gan ddatblygwyr ar gyfer canolbarth Cymru, ond nid yw wedi'i gyhoeddi i'r cyhoedd eto. Mae pryderon am yr amser a gymerwyd i'w baratoi;
- y crynhoad o gynigion am ffermydd gwynt yn Ardaloedd Chwilio Strategol canolbarth Cymru ac amseriad y gwaith adeiladu (oherwydd diffyg cysylltiad â'r grid ar hyn o bryd) yw'r prif reswm fod yr effaith gronnol ar drafnidiaeth yn gymaint o broblem. Mae hon yn sefyllfa unigryw yn y DU. Fodd bynnag, awgrymodd un datblygwr nad oedd disgwyl i ddim ond un o bob pedwar neu bump o'u cynigion gael eu hadeiladu - felly mae'n anodd mesur hyd a lled yr effaith;
- mae datblygwyr yn dadlau y gellid ymdrin â materion trafnidiaeth yn achos rhai ceisiadau drwy ôl-gydsynio fel sy'n digwydd y tu allan i Gymru (lle nad oes effaith gronnol);
- mae'r effaith ar drafnidiaeth yn y Canolbarth yn fwy arwyddocaol yn y Dwyrain i ffwrdd o'r safleoedd yn y Gorllewin - mae hyn yn achosi problemau yn sgil diffyg ymgynghorir â phobl leol ac nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn unrhyw becynnau buddiannau cymunedol;
- nid yw llwybrau amgen posibl ar gyfer tyrbinau gwynt i'r Canolbarth er mwyn rhannu'r baich wedi'u harchwilio (e.e.: o Gas-gwent, A55/A470, drwy Gaergybi/A5);
- ar gyfartaledd, mae 10 Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin fesul tyrbîn gwynt, er bod yr union nifer yn dibynnu ar faint y tyrbîn - ond nid ydynt i gyd yr un hyd, uchder a phwysau. Hefyd, mae hyd at 1,000 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm fesul tyrbîn yn ystod y cyfnod o'u hadeiladu - ond mae effaith y rhain yn wahanol i effaith Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
- mae pryderon am effaith Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ar ffyrdd annigonol/cul, ar y seilwaith tanddaearol, celfi stryd, mynediad y gwasanaethau brys, yr angen posibl am encilfeydd/mannau pasio ychwanegol ac ar draffig twristiaid;
- mae dryswch ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth mewn perthynas â materion trafnidiaeth ffermydd gwynt;
- mae'n ofynnol i ddatblygwyr gynnal Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol gyda phob cais a dylai hyn gynnwys aseiad o'r trafnidiaeth;

- dangosodd astudiaeth Capita Symonds a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru faint posibl y symudiadau trafndiaeth yng nghanolbarth Cymru ac argymhellodd astudiaeth asesiad o'r effaith economaidd - ond nid yw hwn wedi'i gynnal;
- nid oedd trafndiaeth yn rhan bwysig o ymarfer gwreiddiol Nodyn Cyngor Technegol 8 - fe'i gwelwyd fel mater adeiladu dros dro, er na ragwelwyd y byddai'r mwyafrif o gynlluniau'n cael eu hadeiladu ar yr un pryd (oherwydd mynediad i'r grid).

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- er bod problemau trafndiaeth sy'n gysylltiedig â datblygu ffermydd gwynt, nid ydynt yn rhai na ellir eu goresgyn;
- cyfrifoldeb datblygwyr yw arwain y ffordd o ran ymdrin â materion mynediad trafndiaeth sy'n gysylltiedig â chynigion eu prosiectau ynni. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, datblygwyr a Renewable UK Cymru i baratoi cynllun strategol ar reoli trafndiaeth ar gyfer y Canolbarth;
- mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi astudiaeth Cymru gyfan o lwybrau posibl ar gyfer symud cydrannau ac mae canlyniadau'r astudiaeth hon ar gael i ddatblygwyr;
- ar ôl cytuno ar y llwybrau dewisol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol ynglŷn â hyn. Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswydd i hysbysu cymunedau o effaith trafndiaeth ffermydd gwynt;
- ymgynghorwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru wrth baratoi Nodyn Cyngor Technegol 8;
- yn 2009, cyhoeddwyd canllawiau ar ffurf llythyr i awdurdodau cynllunio lleol ar Aseidiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer agweddau trafndiaeth ceisiadau i ddatblygu ffermydd gwynt, gan gynnwys effaith gronol cludo cydrannau ffermydd gwynt.

Barn y Pwyllgor

- materion trafndiaeth, yn enwedig yn y Canolbarth, yw un o'r prif resymau pam nad oes cynnydd pellach wedi'i wneud yn achos nifer sylweddol o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir yn yr ardal honno;
- mae'n annerbyniol ei bod wedi cymryd cyhyd i gyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun strategol ar reoli trafndiaeth ar gyfer y Canolbarth fel y gellir

ymgyngori â chymunedau ar ei effaith a medru ystyried ceisiadau ymhellach;

- mae materion trafndiaeth wedi'u datrys yn effeithiol mewn rhannau eraill o Gymru - fodd bynnag, mewn achosion eraill, bu'n ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno gwybodaeth fanwl iawn cyn y gellid ystyried eu cais cynllunio. Ni allwn weld pam na ellid ymdrin â thrafnidiaeth drwy ôl-gydysnio drwy ddefnyddio amodau cynllunio yn yr achosion hynny lle nad oes effeithiau cronol. Mae hyn yn arfer cyffredin yn yr Alban ac mewn mannau eraill.

Argymhellion

Pennawd

44. Fel rhan o weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid i ryddhau'r **ôl-groniad o geisiadau am ffermydd gwynt ar y tir** (gweler argymhelliad 2), dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio'n benodol ar ddatrys y materion trafndiaeth sy'n gysylltiedig â'r cyfryw ddatblygiadau.
45. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu a darparu cymorth i randdeiliaid fel y gallant **fynd ati ar fyrder i gyhoeddi'r cynllun strategol ar reoli trafndiaeth hirddisgwyliedig ar gyfer y Canolbarth, cyn gweithredu cynlluniau tebyg ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Chwilio Strategol**. Dylai sicrhau yr ymgynghorir â'r holl gymunedau hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynlluniau hyn.
46. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu **astudiaeth asesiad cyflym o effaith economaidd symudiadau trafndiaeth** sy'n gysylltiedig â datblygiadau ffermydd gwynt yn y Canolbarth, fel yr argymhellwyd yn wreiddiol gan Capita Symonds. Dylid cwblhau'r astudiaeth hon erbyn mis Ebrill 2013 fan bellaf.
47. Yn dilyn astudiaeth gan Capita Symonds a awgrymodd y gallai'r rheilffordd gyfrannu at y gwaith o symud rhai o'r cydrannau tyrbin, yn enwedig i'r Canolbarth, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Network Rail a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y **defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd i gludo cydrannau ffermydd gwynt** yn cael ei integreiddio i gynlluniau trafndiaeth datblygwyr lle bo hynny'n briodol.
48. Fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r broses gynllunio a chydysnio ar gyfer datblygu ffermydd gwynt, dylai Llywodraeth Cymru **rannu arferion da o ran ymdrin â materion trafndiaeth ar ôl cydsynio** drwy ddefnyddio amodau cynllunio priodol lle nad oes unrhyw faterion cronol.

Mynediad i'r grid

Barn Rhanddeiliaid

- cred rhai rhanddeiliaid bod diffyg cynllunio strategol gan y Grid Cenedlaethol am ofynion y grid yn y dyfodol, er bod y Grid Cenedlaethol yn dweud ei bod yn ofynnol iddynt gynllunio ar gyfer yr hyn y gellir yn rhesymol ei ragweld;
- mae diffyg eglurder am safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r angen i atgyfnerthu'r grid yn sylweddol yng nghanolbarth a gogledd Cymru;
- mae rhai am gael eglurder ynghylch a yw Llywodraeth Cymru am ysgwyddo'r cyfrifoldeb am seilwaith y grid, gan gynnwys ei gynnal a'i gadw, wrth iddi alw am ddatganoli pwerau ynni pellach;
- mae rhai prosiectau wedi'u hoedi er bod ganddynt gynnig i gysylltu â'r grid;
- mae pryderon am effeithiau peilonau ac is-orsafoedd trydan ar y diwydiant twristiaeth;
- mae'r ôl-groniad o brosiectau yn y Canolbarth yn annhebygol o gael ei ddatrys tan i'r cysylltiad grid newydd arfaethedig gael ei ddarparu yno. Deellir mai 2015 yw'r dyddiad cyflawni ar hyn o bryd;
- mae amodau contract y Grid Cenedlaethol/Gweithredwyr Rhwydwaith yn golygu bod yn rhaid iddynt ddarparu cysylltiadau grid i ddatblygwyr ar ôl i'w prosiectau gael eu cymeradwyo - maent yn "dilyn y megawatiau";
- er ei bod yn ddyddiau cynnar yn achos prosiect cysylltiad grid gogledd Cymru, bydd yr angen yn cael ei gysylltu â chynigion Wylfa a ffermydd gwynt ar y môr. Gall penderfyniad Horizon i dynnu'n ôl effeithio ar amseriad y prosiect, er y bydd angen cysylltiad ar brosiectau ar y môr a phrosiectau llanw;
- gallai gwydnwch y grid yn ne Cymru o ystyried potensial ffermydd gwynt ar y môr hefyd fod yn broblem. Fodd bynnag, mae'r Grid Cenedlaethol yn dweud fel arall;
- mae ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn dangos bod costau gosod ceblau o dan y ddaear tua phum gwaith cymaint â chost gosod gwifrau uwchben y ddaear, sy'n is na'r hyn a ragdybiwyd yn y lle cyntaf;
- yr anawsterau o gysylltu prosiectau ynni dŵr bach a phrosiectau microgynhyrchu cymunedol - gall y broses hon fod yn araf a drud. Fodd

bynag, gall cysylltu prosiectau ynni dŵr bach â'r grid arwain at gymunedau'n elwa wrth i gymunedau anghysbell gael eu cysylltu â'r grid;

- nid oes gan Gwmnïau Rhwydwaith Dosbarthu ddull cyson o godi tâl am gysylltiad â'r grid, gyda'r costau yn rhwystr mewn rhai achosion.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- o safbwynt y Canolbarth, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor ac yn llythyr y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2011 ar gapasiti Ardaloedd Chwilio Strategol, nad yw maint seilwaith y grid a gynigir gan y Grid Cenedlaethol/Gweithredwyr Rhwydwaith ar gyfer y Canolbarth yn angenrheidiol cyn belled nad ydynt yn uwch na lefelau capasiti uchaf yr Ardaloedd Chwilio Strategol;

- mae'r llywodraeth ers hynny wedi darparu'r diweddariad canlynol i'r Pwyllgor ar ei safbwynt:

"Safbwynt Llywodraeth Cymru yw pan fo angen grid newydd, y bydd Gweinidogion yn disgwyl i'r cwmni grid a'r rheoleiddiwr sicrhau ei fod wedi'i leoli, ei gynllunio a'i osod mewn modd mor sensitif ag sy'n bosibl, gan ddefnyddio technegau priodol, yn cynnwys gosod dan ddaear. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi adeiladu peilonau mawr goramlwg yn y Canolbarth, ac rydym yn pwysleisio hyn gydag Adran Drawsyrru'r Grid Cenedlaethol ac Ofgem.

"Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl benderfynwyr Cymru, yn cynnwys y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol, sydd wedi disodli'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, gydnabod ei pholisi gofodol penodol a amlinellir yn Nodyn Cyngor Technegol 8 a pharchu'r ffaith bod gan Ardaloedd Chwilio Strategol gapasiti amgylcheddol cyfyngedig ac na ddylai'r hyn a gynhyrchir fynd y tu hwnt i'r lefelau uchaf a aseswyd yn 2005."

- dywedodd y Prif Weinidog wrth y Pwyllgor bydd y seilwaith sydd yno'n barod yn gallu cynnal y mwyafrif o'r datblygiadau arfaethedig, gan gynnwys Wylfa, er mai'r Grid Cenedlaethol sy'n gyfrifol am y penderfyniadau;

- mae'r llywodraeth ers hynny wedi darparu'r diweddariad canlynol i'r Pwyllgor ar ei safbwynt:

"Yn wahanol i'r Canolbarth, mae gan y Gogledd eisoes seilwaith mawr a pheth capasiti dros ben ond mae angen buddsoddi er mwyn cael seilwaith newydd yn lle'r hen un yn ogystal â chefnogi datblygiadau newydd arfaethedig, megis Wylfa."

- fodd bynnag, mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn nodi “mae angen buddsoddi yn ein seilwaith ynni, ei atgyfnerthu a’i wella” ac y dylai datblygiadau ynni gael “eu cynorthwyo, nid eu rhwystro, gan welliannau i’n grid”. Mae *Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru* yn nodi bod datblygiadau grid yn “seilwaith hanfodol i gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy”.

Barn y Pwyllgor

- mae darparu cysylltiadau grid ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar y tir ac ar y môr fel rhan o grid mwy gwasgaredig a deallus yn amlwg yn hollbwysig os yw polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy i lwyddo;
- mae’r Pwyllgor o blaid yr alwad gan Lywodraeth Cymru i ddatganoli cyfrifoldeb am gydsyniadau’r grid trydan, ochr yn ochr â chyfrifoldeb am brosiectau ynni mawr eraill;
- yn ogystal ag atgyfnerthu’r grid yn y Canolbarth a’r Gogledd, mae’n bwysig cynnwys goblygiadau datblygu ffermydd gwynt ar y môr yn y broses o gynllunio i’r dyfodol - er enghraifft yr achos dros gysylltiad tanfor rhwng Ynys Môn a Sir Benfro a’r angen posibl i atgyfnerthu’r grid yn y De yn sgil prosiectau ynni’r tonnau ac ynni’r llanw yn y dyfodol. Nid yw’r Pwyllgor wedi’i argyhoeddi bod y Grid Cenedlaethol yn cynllunio ymlaen fel y dylai er mwyn mynd i’r afael â’r galw tebygol yn y dyfodol ledled Cymru sy’n deillio o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy;
- rydym yn disgwyl manylion prosiect cysylltu’r Canolbarth;
- rydym yn annog y Grid Cenedlaethol a gweithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu trydan i wrando ar farn cymunedau lleol a chytuno i osod ceblau o dan ddaear yn yr ardaloedd mwyaf amgylcheddol sensitive.

Argymhellion

Pennawd

49. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am sicrwydd ar unwaith gan OFGEM bod y Grid Cenedlaethol yn cynnwys **lefelau digonol o ddiogelu at y dyfodol** yn ei gynlluniau ar gyfer atgyfnerthu’r grid ym mhob rhan o Gymru, er mwyn i’r grid allu ymdopi â natur cynyddol amrywiol a gwasgaredig cynhyrchu ynni.
50. Dylai Llywodraeth Cymru **egluo ei safbwynt** ar yr angen **i atgyfnerthu’r grid yn sylweddol yn y Canolbarth a’r Gogledd**, o ystyried y gwahaniaethau amlwg rhwng datganiadau'r llynedd ar lefelau capasiti Ardaloedd Chwilio Strategol a datganiadau mwy diweddar yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* a’r

Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac yn y diweddariad ar ei safbwynt a ddarparwyd gan y Pwyllgor.

51. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydwaith Ardal yn cael eu cynnwys yn **y protocol ar gyfer buddion cymunedol** (gweler argymhelliad 53), er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan seilwaith grid newydd hefyd yn elwa ar y seilwaith cysylltiedig.
52. Dylai Llywodraeth Cymru annog OFGEM i sicrhau bod dull cyson a symlach o **sicrhau a chodi tâl am gysylltiadau â'r grid** yn achos prosiectau ynni adnewyddadwy bach.

Cyfranogiad/buddion cymunedol

Barn Rhanddeiliaid

- cafwyd diffyg cyfranogiad gan y gymuned ynghyd â diffyg argyhoeddiad o'r angen am brosiectau ynni adnewyddadwy hyd yn ddiweddar;
- bydd Ynni Cymunedol Cymru yn ganolbwynt a rhwyd arbed bwysig ar gyfer cael y gymuned i ymgysylltu â'r sector ynni adnewyddadwy;
- galw am ddatblygu pecyn cymorth/siop un stop ar gyfer cymunedau i'w helpu gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy;
- yr angen i wella sgiliau mewn grwpiau cymunedol lleol drwy hyfforddiant perthnasol a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned;
- mae dadlau ynglŷn â datblygiadau ffermydd gwynt mawr wedi rhwystro cymunedau rhag datblygu cynlluniau bach;
- mae *Deddf Cynllunio 2008* yn nodi ei bod yn ofynnol ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned - dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i geisiadau y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymdrin â nhw;
- mae diffyg cysondeb o ran y buddion cymunedol a gynigir gan ddatblygwyr ar hyn o bryd;
- mae cymunedau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan welliannau i'r grid neu'r seilwaith trafniadaeth sy'n bell o'r prosiectau ynni adnewyddadwy eu hunain yn credu y dylent hefyd dderbyn cyfran o'r buddion cymunedol;
- yr angen am brotocol - er mwyn i daliadau/mathau eraill o fuddion fod yn dryloyw - mae Renewable UK Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn;
- dylid sefydlu corff penodol a all dderbyn rhan o'r budd cymunedol gan ffynonellau masnachol er mwyn dyrannu cyllid i brosiectau ynni lleol mwy cynaliadwy;
- dylai'r Grid Cenedlaethol gyfrannu at fuddion cymunedol;
- dylai aelodau etholedig weinyddu ymddiriedolaethau buddion cymunedol;
- mae rhai o'r farn y dylid gwahaniaethu rhwng cynllunio/cydsynio a darpariaeth buddion cymunedol - ni ddylai fod unrhyw awgrym o 'brynu' cydsyniadau;

- cyfleoedd posibl ar gyfer asio cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai ar gyron Ardaloedd Chwilio Strategol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn ceisio “sicrhau’r manteision mwyaf posibl i Gymru o ran swyddi a manteision economaidd ehangach ar bob cam datblygu tra’n sicrhau manteision hirdymor i’n cymunedau.”
- mae’n nodi “mae’n rhaid i ni sicrhau bod ein cymunedau yn chwarae rhan lawn yn y broses a bod hyn yn dod â manteision cadarnhaol hirdymor iddynt.”
- mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn gweithio gyda busnesau yn ystod tymor presennol y Cynulliad i gytuno ar ffyrdd o ddatblygu ynni yng Nghymru sy’n amlinellu disgwyliadau ar gyfer buddion economaidd a chymunedol a gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i sicrhau bod y cyfoeth a gynhyrchir wrth ddatblygu ynni yng Nghymru o fudd i gymunedau ac yn gosod y sylfeini ar gyfer ffyniant economaidd hirdymor Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r buddion hyn gynnwys ail-fuddsoddi yn seilwaith ynni, yn effeithlonrwydd ynni ac yn y broses o gynhyrchu ynni.

Barn y Pwyllgor

- mae sut i sicrhau cydbwysedd rhwng system gynllunio a chydsynio sy’n gweithredu’n gyflym ac effeithiol i fynd i’r afael â’r angen brys am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, tra’n sicrhau bod cymunedau’n deall effaith y datblygiadau hyn ac yn teimlo perchnogaeth drostynt ac yn elwa arnynt wedi bod yn thema ganolog drwy gydol yr ymchwiliad hwn;
- mae’r broses o drafod buddion cymunedol yn cael ei chadw hyd braich o’r broses o sicrhau cydsyniad cynllunio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gall hyn yn ei hun achosi tensiwn wrth wneud penderfyniadau ac mae’n broses llai tryloyw oherwydd hynny o bosibl. Mae’n debyg y byddai cysylltiad mwy uniongyrchol â chynllunio/cydsynio yn golygu newidiadau i ddeddfwriaeth gyfredol, ond byddai’n werth ei ystyried ymhellach, er y byddai angen ystyried pryderon am ‘brynu’ cydsyniadau’n ofalus;
- rydym yn gweld angen dybryd am brotocol ar gyfer buddion cymunedol a fydd yn gwneud trefniadau o’r fath yn fwy tryloyw ac yn galluogi i gymunedau a effeithir yn uniongyrchol ac anuniongyrchol gan brosiectau ynni adnewyddadwy mawr a’r seilwaith cysylltiedig dderbyn buddion uniongyrchol. Dylai rhan o’r buddion hyn gynnwys taliadau ariannol uniongyrchol neu gyfleoedd am berchnogaeth leol. Er y dylid ail-fuddsoddi rhai o’r buddion hyn mewn mesurau ynni, credwn y dylai cymunedau hefyd

allu derbyn buddion mewn nwyddau. Yn ein barn ni, perchnogaeth gymunedol yw'r math gorau o fudd ar gyfer prosiect ynni adnewyddadwy yn y gymuned;

- mae buddion cymunedol hefyd yn cynnwys swyddi'n cael eu creu a'r buddion ariannol anuniongyrchol a gaiff yr economi leol yn sgil gwaith adeiladu a chynnal a chadw parhaus.

Argymhellion

Pennawd

53. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda datblygwyr a Renewable UK Cymru i gwblhau gwaith **ar brotocol ar gyfer buddion cymunedol erbyn canol 2012**.
54. Yn ogystal â chymunedau y mae datblygiadau ynni adnewyddadwy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, dylai'r protocol ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr **gyfrannu at gymunedau** sy'n cael eu **heffeithio'n anuniongyrchol gan y cynigion** yn sgil y seilwaith cysylltiedig (ffyrdd a'r grid).
55. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a hyrwyddo gwaith **Ynni Cymunedol Cymru** fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor i gymunedau lleol. Dylai **ddarparu peth cyllid i Ynni Cymunedol Cymru** fel y gall weithredu fel eiriolwr medrus i gynghori cymunedau lleol ar reoli a defnyddio **cyfraniadau buddion cymunedol** ar gyfer prosiectau ynni mawr a'r seilwaith cysylltiedig.
56. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth i ymchwilio i ymarferoldeb diwygio **polisiâu cenedlaethol a chanllawiau cynllunio lleol cyfredol i ymgorffori** ystyriaeth fwy cadarn a systematig o **becynnau buddion cymunedol a lefelau tâl gorfodol** gan ddatblygwyr ynni adnewyddadwy sydd wedi eu cysylltu'n ffurfiol â'r broses gynllunio/cydsynio.
57. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ffurfiol er mwyn i **wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd am lefel a natur y buddion** sy'n gysylltiedig â datblygu ynni sydd ar gael i gymunedau.
58. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno **cyfnod ymgynghori cyn ymgeisio ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy rhwng 5 a 50 megawat**, wedi'i fodelu ar weithdrefn *Deddf Cynllunio 2008* ar gyfer Prosiectau Seilwaith Strategol Cenedlaethol.

Materion technoleg penodol (nad ydynt wedi'u trafod fel arall yn yr adroddiad)

(a) Microgynhyrchu/ynni adnewyddadwy cymunedol

Barn Rhanddeiliaid

- dylai Llywodraeth Cymru roi arwyddion cliriach ar gynlluniau adnewyddadwy bach;
- galwad i ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i ddatblygiadau solar ffotofoltaig mewn adeiladau cyhoeddus, diwydiannol, masnachol a chymunedol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wrth y Pwyllgor ei fod o'r farn bod prosiectau cymunedol yn rhan bwysig o'r darlun cyffredinol. Dywedodd ei fod wedi nodi'n glir mewn cyfarfodydd â Llywodraeth y DU i drafod newidiadau i'r cynllun tariff cyflenwi trydan a'r cynnig i ddiddymu'r gyfradd uwch eu bod yn gweld datblygiadau ynni cymunedol a systemau sy'n meithrin, annog a chynhyrchu cynlluniau ynni cymunedol yn rhan bwysig o'r darlun ynni cyffredinol;
- nid yw targedau penodol yn y Cynllun Gweithredu Microgynhyrchu (2007) bellach yn berthnasol gan fod cynlluniau fel ARBED wedi'i ddisodli;
- Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i eiddo annomestig, nid yw wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth eto. Mae hyn yn cael ei gydgysylltu â chyflwyno'r newidiadau hyn yn Lloegr.

Barn y Pwyllgor

- rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod microgynhyrchu ac ynni adnewyddadwy cymunedol yn rhan bwysig o gymysgedd ynni y dyfodol ac y dylid eu hannog ymhellach. Fodd bynnag, credwn y gellid gwneud mwy i annog mwy i fanteisio arnynt;
- barn y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i beidio â gwneud **unrhyw newidiadau pellach i lefelau'r Tariffau Cyflenwi Trydan ar gyfer gosodiadau solar ffotofoltaig** am o leiaf bedair blynedd er mwyn rhoi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd i'r diwydiant.

Argymhellion

59. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau i **ymestyn hawliau datblygu a ganiateir i eiddo annomestig** erbyn diwedd 2012 fan bellaf.
60. Wrth gefnogi/hyrwyddo Ynni Cymunedol Cymru (gweler argymhelliad 55), dylai Llywodraeth Cymru annog datblygiad **pecyn cymorth a hyfforddiant penodol** ar gyfer cymunedau sydd am ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy bach.
61. Dylai Llywodraeth Cymru **gyhoeddi targedau diwygiedig ar gyfer Microgynhyrchu**, o ystyried bod y targedau yng Nghynllun Gweithredu Microgynhyrchu 2007 wedi'u disodli.
62. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU ac OFGEM i ddatrys problemau o ran **dehongli rheolau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd** lle mae prosiectau cymunedol yn gwneud cais am Dariffau Cyflenwi Trydan a hefyd yn derbyn cyllid gan y cronfeydd strwythurol.

(b) Ynni'r Môr ac Ynni'r Llanw

Barn Rhanddeiliaid

- mae galw am sefydlu Grŵp Ynni Adnewyddadwy Morol Cymru gyfan i gydgyssylltu gweithgarwch ledled Cymru. Mae Ynni Morol Sir Benfro yn bartneriaeth gyhoeddus-preifat sydd eisoes yn gweithredu yn y De-orllewin;
- awgrymwyd sefydlu Parc Ynni'r Môr penodedig i annog datblygiad technolegau ynni'r tonnau/ynni'r llanw (yn Sir Benfro o bosibl);
- yr angen am un pwynt cyswllt a marchnata ynni adnewyddadwy morol i ddarpar ddatblygwyr yn y sector ynni adnewyddadwy morol yng Nghymru;
- pwysigrwydd gwybodaeth dda/data da am donnau, llanw a cherhyntau i leihau'r ansicrwydd ymysg datblygwyr. Mae angen arian cyhoeddus ar gyfer y ddarpariaeth hon;
- pwysigrwydd Fframwaith Strategol Ynni Adnewyddadwy Morol a'r Astudiaeth o'r Seilwaith Morol sydd ar y gweill fel sylfaen ar gyfer nodi safleoedd posibl;
- nid oes angen i Barthau Cadwraeth Morol a safleoedd dynodedig eraill atal gosod dyfeisiau ynni adnewyddadwy morol. Fodd bynnag, mae rhai'n bryderus am effaith bosibl datblygiadau ynni adnewyddadwy ar ecosystemau morol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* yn nodi bod Llywodraeth Cymru “wedi ymrwymo’n gyfan gwbl i ryddhau’r ynni yn ein moroedd.” Mae’n credu “y gallai Cymru fod yn arweinydd byd ym marchnad ynni’r môr – fel cynhyrchydd sylweddol ac, yr un mor bwysig, fel allforiwr gwybodaeth, technolegau a gwasanaethau sy’n ymwneud ag ynni’r môr.”

Barn y Pwyllgor

- mae’r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cymru ar botensial enfawr sectorau ynni’r môr ac ynni’r llanw. Fodd bynnag, mae’n amlwg na fydd y technolegau hyn, ar wahân i ffermydd gwynt ar y môr, wedi’u datblygu’n ddigonol i wneud cyfraniad sylweddol at y cymysgedd ynni cyn 2020. Mae’n bwysig sicrhau bod y gefnogaeth a’r seilwaith yn eu lle er mwyn i Gymru allu elwa ar sectorau ynni’r môr ac ynni’r llanw yn y tymor hirach.

Argymhellion

63. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **is-grŵp o’r Bwrdd Cyflawni Ynni Adnewyddadwy arfaethedig** (gweler Argymhelliad 1) gyda chyfrifoldeb am **ddatblygiadau ynni’r Môr ac ynni’r Llanw ledled Cymru** a dylid modelu hyn ar Ynni Morol Sir Benfro.
64. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod **gwybodaeth gadarn am lanw, tonnau a cherhyntau** o gwmpas arfordir Cymru yn cael ei chasglu a’i **rhannu â’r cyhoedd** i leihau’r ansicrwydd ymysg darpar ddatblygwyr.
65. Dylai Llywodraeth Cymru weithio’n agos gyda rhanddeiliaid sector preifat a chyhoeddus i archwilio potensial **Aber Afon Hafren fel ffynhonnell ynni’r llanw adnewyddadwy**.
66. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chytuno ar **Femorandwm Cydddealltwriaeth ffurfiol** gyda’r **Sefydliad Rheoli Morol** ar ymdrin â phrosiectau ynni adnewyddadwy, erbyn diwedd 2012 fan bellaf.

(c) Troi gwastraff yn ynni/Biomass

Barn Rhanddeiliaid

- mae troi gwastraff yn ynni yn cyfeirio at sawl techneg, gan gynnwys treulio anaerobig a llosgi i adfer ynni;
- mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol wedi bod yn gefnogol o safbwynt rhaglenni ariannol a chaffael ar gyfer troi gwastraff trefol yn ynni;

- mae angen gwell cymorth a chymhellion ariannol a chymorth gyda materion datblygu ar gwmnïau bach sy'n treulio'n anerobig ar ffermydd;
- mae rhai'n eu credu bod polisi Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ormod ar wastraff trefol yn hytrach na'r holl ffrwd wastraff;
- o ran safleoedd treulio anaerobig, crybwyllwyd fod cysylltu â'r grid yn broses araf a drud. Galwyd hefyd am safoni'r costau i gysylltu â'r grid;
- roedd galw am i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar sicrhau cyflenwad biomas yn y dyfodol drwy blannu mwy o goetiroedd, gan y bydd cyflenwad biomas yn gostwng o 2020 ac ni fydd Cymru yn gallu bodloni'r galw heb ddatblygiadau coedwigaeth pellach neu fewnforio mwy.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- o ran gwastraff na ellir ei atal, ei leihau, ei aildddefnyddio na'i ailgylchu – ac ar gyfer y gwastraff hwn yn unig – mae'n well ei ddefnyddio i greu ynni na'i anfon i safleoedd tirlenwi;
- mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r Cynllun Gweithredu Bio-ynni* yn nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfleusterau trin troi gwastraff yn ynni. Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn datgan bod Cymru am geisio aildddefnyddio neu ailgylchu ei holl wastraff erbyn 2050, heb fod angen unrhyw safleoedd tirlenwi neu adfer ynni, neu o leiaf bydd yn gostwng gwastraff i 65 y cant o lefelau cyfredol;
- mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* hefyd yn datgan y dylai Cymru aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70 y cant o wastraff erbyn 2024/25 ac y dylid trin y 30 y cant arall o wastraff drwy gyfleusterau trin troi gwastraff yn ynni hynod effeithlon;
- yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi treulio anaerobig fel yr opsiwn dewisol ar gyfer trin gwastraff bwyd trefol, gyda chyllid ar gael i awdurdodau lleol sydd am ddatblygu safleoedd treulio anaerobig i drin gwastraff bwyd sydd wedi'i wahanu yn y tarddle. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £26 miliwn o gyllid newydd ar gyfer treulio'n anaerobig wastraff bwyd sydd wedi'i wahanu a gesglir o aelwydydd. Bydd yr arian newydd hwn yn cael ei roi i awdurdodau lleol ledled Cymru fel y gallant ddatblygu safleoedd treulio anaerobig fel opsiwn amgen i dirlenwi;
- mae Llywodraeth Cymru yn credu mai cynlluniau troi gwastraff yn ynni, gyda thechnoleg Gwres a Phŵer Cyfunedig, sydd â'r potensial mwyaf i wneud effaith gadarnhaol ar newid yn yr hinsawdd o gymharu â thechnolegau trin gwastraff gweddilliol eraill. Felly, maent yn cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n bwriadu dechrau trin gwastraff

gweddilliol. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydweithio mewn grwpiau i gaffael trin gwastraff gweddilliol;

- mae *Datganiad Polisi Ynni* (2010) Llywodraeth Cymru yn nodi mai 1 gigawat o gapasiti llwyr yw potensial ynni adnewyddadwy cynaliadwy Cymru ar gyfer biomas (trydan) erbyn 2020. Mae hefyd yn datgan:

“Ein nod erbyn 2020 yng Nghymru yw darparu hyd at 6KWh/d/p o drydan o fiomas - 50% yn gynhenid/50% wedi'i fewnforio - a photensial gwres o 2-2.5 KWh/d/p yng Nghymru¹.”

- mae hyn yn cynnwys ynni a gynhyrchir o gnydau biomas yn ogystal â gwastraff.

Safbwynt y Pwyllgor

- mae gan rai technolegau troi gwastraff yn ynni, a threulio anaerobig yn arbennig, botensial sylweddol i gyfrannu at y cymysgedd ynni ac rydym o blaid treulio anaerobig fel yr opsiwn gorau ar gyfer trin gwastraff bwyd trefol;
- er bod troi gwastraff gweddilliol trefol yn ynni yn opsiwn mwy dymunol na thirlenwi yn y tymor byr, yn y pen draw, dylai'r cyflenwad gwastraff gweddilliol leihau'n sylweddol os ydym yn llwyddo i gyflawni targedau ailgylchu a lleihau gwastraff;
- mae'r Pwyllgor yn credu bod polisiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar droi gwastraff yn ynni yn rhoi gormod o bwyslais ar wastraff trefol a dim digon ar rôl ffrydiau gwastraff eraill. Dim ond tua 15 y cant o'r holl wastraff yng Nghymru sy'n deillio o ffynonellau trefol;
- rydym hefyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru roi rhagor o bwyslais ar aildefnyddio/ailgylchu ac y dylai fonitro'n agos gapasiti cyffredinol safleoedd troi gwastraff yn ynni a all gael eu comisiynu gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Rydym yn bryderus am lefelau posibl y tunelledd gwastraff a fydd ei angen i sicrhau bod y safleoedd hyn yn parhau i weithredu ar ôl eu comisiynu;
- dylid gwneud rhagor o ddefnydd o'r gwres a gynhyrchir fel isgynnyrch wrth adfer ynni o wastraff ar gyfer cynlluniau gwresogi ardaloedd a chynlluniau masnachol;
- rydym yn cefnogi safleoedd ynni biomas, ond dylai'r rhain fod yn fach ac yn lleol er mwyn osgoi'r angen i fewnforio tanwydd. Nid ydym yn cefnogi

¹ KWh/d/p = cilowat yr awr y dydd y person

targed Llywodraeth Cymru o ddarparu 1 Gigawat o drydan o fomas os yw hyn yn golygu y bydd yn rhaid mewnfario 50 y cant o'r tanwydd;

- bydd cymorth ariannol ar gyfer 'gwell cyd-danio' drwy gynllun Tystysgrif Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy yn annog y defnydd o fomas fel porthiant ar y cyd â thanwydd ffosil mewn gorsafoedd pŵer mawr yn y tymor byr, ond ni ddylid ystyried hyn yn ateb hirdymor.

Argymhellion

67. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agos **gapasiti cyfan a lefelau tunelledd gwastraff** sy'n gysylltiedig â **safleoedd troi gwastraff yn ynni a gomisiynir gan awdurdodau lleol** a dylai adolygu ei pholisïau ar drin gwastraff gweddilliol pan fo'r sefyllfa'n fwy clir.
68. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau cynllunio i annog datblygiad cyfleusterau sy'n cynnig yr **opsiynau gorau ar gyfer adfer gwres o wastraff**, drwy'r **diwygiadau i Nodyn Cyngor Technegol 21** (Cynllunio a Gwastraff) a **chanllawiau atodol** awdurdodau cynllunio lleol.
69. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir gosod gofyniad bod **pwysau uwch yn cael ei ystyried yn ystyriaeth berthnasol** yn achos **aildefnyddio gwres** a gynhyrchir gan **safleoedd troi gwastraff yn ynni ar gyfer cynlluniau gwresogi ardaloedd** ym mhenderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio.
70. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi **cynllun drafft ar reoli gwastraff drafft** ar gyfer y **Sector Diwydiannol a Masnachol** erbyn diwedd 2012 fan bellaf. Dylai hyn gynnwys cynlluniau gweithredu manwl yn y sector hwn ar gyfer gwahanu gwastraff bwyd yn y tarddle ac **arallgyfeirio** gwastraff bwyd o **safleoedd tirlenwi i safleoedd treulio anaerobig** ynghyd â ffyrdd o sicrhau gostyngiad cyffredinol a threfniadau gwaredu amgen ar gyfer pob math o wastraff o'r sector hwn.
71. Cyhoeddwyd drafft o **Gynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd** ar reoli gwastraff ym mis Mawrth 2011 er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Dylai Llywodraeth Cymru **gyhoeddi fersiwn terfynol o'r cynllun hwn cyn gynted â phosibl** a datblygu'r camau gweithredu y mae'n eu nodi i annog defnydd pellach o dreulio anaerobig ar gyfer trin gwastraff bioddiraddiadwy a gynhyrchir gan y sector.
72. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo datblygiad **safleoedd treulio anaerobig bach ar ffermydd**.

(d) Pŵer ynni dŵr

Barn Rhanddeiliaid

- mae ymarfer gwahanol awdurdodau cynllunio lleol yn amrywio, gydag o leiaf un yn mynnu bod datblygwyr ynni dŵr yn derbyn cydsyniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd i ddechrau, cyn y byddant yn ystyried cais cynllunio. Mae datblygwyr yn dweud bod hyn yn golygu bod yr amserlen yn ymestyn ac felly'r costau, ac y dylid cydsynio a chaniatáu ar yr un pryd;
- yn ddiweddar, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi diwygio ei chanllawiau ar gynlluniau ynni dŵr bach ar gyfer datblygwyr a chymunedau i'w helpu drwy'r broses ganiatáu;
- roedd galw am i Asiantaeth yr Amgylchedd ddefnyddio'r un weithdrefn yng Nghymru ag yn Lloegr a'r Alban ar gyfer 'rhannu llif' (tynnu rhywfaint o ddŵr o afonydd ucheldirol llai ac yna'i ail-gyflwyno i lawr yr afon). Roedd datblygwyr yn dadlau bod prosiectau hŷn, tebyg o ran maint wedi bod ar waith ers tua 15 mlynedd heb unrhyw effeithiau niweidiol amlwg, felly nid yw'n glir pam mae angen 'rhannu llif' yn awr ar lefel mor ragofalus yng Nghymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau cynllunio lleol a bod arbenigedd technegol a chyllid ar gael i'w helpu i ymdrin â cheisiadau ynni adnewyddadwy;
- o ran 'rhannu llif', dywedodd y Gweinidog bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwybodol o bryderon y diwydiant a'i fod yn gobeithio y byddai'n gweithredu system sy'n hwyluso datblygiad ynni dŵr yn well yng Nghymru.

Barn y Pwyllgor

- mae'n annerbyniol bod unrhyw awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn mynnu bod gweithdrefnau anghywir yn cael eu dilyn wrth iddynt ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni dŵr bach;
- rydym hefyd yn bryderus am yr hyn a glywsom am 'rannu llif' ac nid ydym yn deall pam mae ymarfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn amrywio, o gymharu â Lloegr. Dywedwyd wrthym mai canlyniad hyn oedd bod cynllun ynni dŵr yng Nghymru ond hanner mor broffidiol ag un yn Lloegr neu'r Alban. Ers hynny, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi ysgrifennu atom ni i egluro'r sefyllfa. Mae'n dweud bod egwyddorion cadarn a phroffedig wrth wraidd rhannu llif, ond mae hefyd yn derbyn bod yr anghysondeb ledled Cymru a Lloegr yn achosi pryder yn y diwydiant ynni

dŵr a'i bod yn gweithio'n galed i ddatrys y sefyllfa. Rydym yn amheus iawn o'r ymateb hwn ac yn cydymdeimlo â safbwyntiau'r diwydiant a nodir mewn gohebiaeth bellach i'r Pwyllgor, sy'n nodi nad oes modd cyfiawnhau'r gwahanol ddulliau o 'rannu llif' a ddefnyddir yng Nghymru.

Argymhellion

73. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau **nad oes unrhyw awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod cydsyniad wedi'i dderbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer cynllun ynni dŵr cyn y bydd yn ystyried cais cynllunio**. Dylid cynnwys y gofyniad hwn yn ei adolygiad o'r broses gynllunio/caniatáu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy (gweler argymhelliad 23).
74. Dylai Llywodraeth Cymru annog Asiantaeth yr Amgylchedd i fynd ati ar fyrder i lunio fersiwn diwygiedig o'i **Chyfarwyddyd Ymarfer Da** ar gyfer cynlluniau ynni dŵr "High Head" i gynnwys **dull cyson o 'rannu llif'** ledled Cymru a Lloegr, a gwneud hynny erbyn diwedd 2012 fan bellaf.

(e) Glo/nwy confensiynol/dal a storio carbon

Barn Rhanddeiliaid

- mae glo yn parhau'n rhan o'r cymysgedd ynni cyfredol yng Nghymru. Mae cronfeydd wrth gefn sylweddol eisoes yng Nghymru gyda chaniatâd i gloddio yn ystod y deng mlynedd nesaf. Mae cloddio lleol am lo hefyd yn cefnogi economi Cymru. Mae cysylltiad agos rhwng cynhyrchwyr glo lleol a gorsafoedd pŵer lleol a gwaith dur Port Talbot;
- mae allyriadau carbon o orsafoedd pŵer glo yn ddwywaith yn uwch na'r allyriadau o orsafoedd pŵer nwy. Mae angen dangos yn gyflym y gall technolegau dal a storio carbon ar raddfa lawn fod yn opsiwn, yn dechnegol ac yn economaidd, os ydym am barhau i ddefnyddio glo fel ffynhonnell ynni. Bydd dal a storio carbon hefyd yn bwysig iawn i ddefnydd nwy confensiynol yn y dyfodol;
- mae ôl-addasu cyfleusterau dal a storio carbon ar gyfer gorsafoedd pŵer nwy yn fwy tebygol o fod yn ymarferol nag y mae ar gyfer gorsafoedd pŵer glo;
- mae opsiynau ar gyfer storio carbon yn cael eu pwysu a'u mesur, ond nid ydynt yn debygol o fod ar gael yn y tymor byr;
- ystyrir bod *Polisi Cynllunio Mwynau Cymru* a MTAN 2 yn creu rhwystrau i'r diwydiant glo, yn enwedig pan fo clustogfa 500 metr yn cael ei gosod ar lofeydd ar yr wyneb ond nid ar fathau eraill o gloddio am fwynau. Hefyd,

dylid sefydlu perthynas eglur yn y system gynllunio rhwng cynhyrchu ynni a chynhyrchu tanwydd ar gyfer cynhyrchu ynni;

- amddiffyn hawliau eiddo deallusol yw un o'r rhesymau i'r cwmnïau pŵer dynnu'n ôl o'r gystadleuaeth i arddangos dal a chadw carbon a gyllidwyd gan y Llywodraeth. Byddai'n well ganddynt weithio ar eu liwt eu hunain a chadw'r hawliau eiddo deallusol.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- yn y tymor byr, bydd nwy, ynni niwclear a bio-ynni yn darparu'r ynni i wneud iawn am y cyflenwad ysbeidiol o ffynonellau adnewyddadwy. Mae nwy yn danwydd trosiannol allweddol oherwydd bod allyriadau nwyon tŷ gwydr o nwy yn llawer llai na'r rhai a geir o lo.
- mae'n aneconomaidd cael gafael ar y rhan fwyaf o'r glo dwfn sydd ar ôl yng Nghymru bellach - nid oes modd defnyddio'r glofeydd dwfn a gaewyd yn yr 1970au a'r 1980au bellach, gan fod y rhan fwyaf o'r gwythiennau glo o dan dai pobl;
- dylai unrhyw weithfeydd tanwydd ffosil newydd fod yn barod i ddal carbon. Dylent hefyd fod â chynlluniau wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer dal a storio a dylent sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl drwy ddefnyddio gwres gwastraff a chyd-danio;
- er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae'n hanfodol dal a storio carbon. Fodd bynnag, ni fydd modd gwneud hyn ar raddfa fawr tan o leiaf 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnal cynllun peilot ymchwil yn Aberddawan. Mae'n ceisio sbarduno datblygiadau pellach, yn enwedig yn y Gogledd yn y lle cyntaf;
- mae potensial i storio carbon mewn dyfrhaen heli fawr ym Môr Iwerddon ac mewn gwythiennau glo dwfn fel rhan o waith pellach i adfer nwy ac olew.

Barn y Pwyllgor

- mae'r Pwyllgor yn derbyn y byddwn yn parhau i ddibynnu ar gyflenwadau confensiynol o nwy a glo am o leiaf y degawd nesaf. Felly, mae'n hollbwysig bod dichonoldeb economaidd a thechnegol technoleg dal a storio carbon ar raddfa lawn yn cael ei sefydlu cyn gynted â phosibl, yn enwedig ar gyfer gorsafoedd pŵer nwy;
- bydd y diwydiant glo yn parhau'n bwysig yn y De yn y tymor byr, fel cyflenwr tanwydd i'r gorsafoedd pŵer tân glo sy'n weddill ac ar gyfer gwaith dur Tata. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd y defnydd o lo mewn gorsafoedd pŵer yn do di ben yn raddol dros y degawd nesaf oherwydd eu

hallyriadau carbon annerbyniol o uchel. Mae angen rheoli goblygiadau hyn ar gyflogaeth a sgiliau lleol yn ofalus iawn.

Argymhellion

75. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i **gefnogi Ymchwil a Datblygu** yng Nghymru er mwyn archwilio **dichonoldeb** technegol ac economaidd **prosesau dal a storio carbon** ar gyfer gorsafoedd pŵer tân nwy sy'n bodoli'n barod a rhai'r dyfodol.
76. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cwmnïau preifat yn deall o'r cychwyn cyntaf fod gwerth **hawliau eiddo deallusol** sy'n gysylltiedig â buddsoddiad, lle mae arian cyhoeddus yn cael ei ddarparu i helpu i gyllido gwaith Ymchwil a Datblygu ym maes ynni, yn mynd i gael eu rhannu gyda'r corff cyllido sector cyhoeddus.

(f) Nwy Anghonfensiynol

Barn Rhanddeiliaid

- mae llawer o nwy anghonfensiynol (nwy siâl a methan seiliedig ar lo) ar gael o bosibl fel ffynhonnell ynni mewn rhannau o Gymru, ar y tir ac ar y môr. Gellid manteisio arnynt drwy ddrilio, chwistrellu dŵr a hylifau eraill neu drwy nweiddio tanddaearol yn y fan a'r lle;
- yn ôl Canolfan Tyndall, ni ellir cysoni'r defnydd o nwy siâl gydag ymrwymadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ostwng allyriadau a sicrhau nad yw tymheredd byd-eang yn codi mwy nag uchafswm o ddwy radd ganradd, hyd yn oed pe bai technoleg dal a storio carbon ar gael;
- dengys tystiolaeth o'r unig safle yn y DU yn Swydd Gaerhirfryn lle mae ffracio hydrolog wedi'i ddefnyddio ei bod yn debygol iawn bod hyn wedi sbarduno nifer o ddigwyddiadau seismig bach. Fodd bynnag, mae adroddiad diweddar i Lywodraeth y DU wedi argymhell cymryd gofal wrth barhau â gwaith ffracio hydrolog;
- mae perygl o halogi dŵr wyneb a daear wrth ddrilio ac echdynnu nwy anghonfensiynol. Fodd bynnag, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi arfer ymdrin â gweithgareddau eraill lle ceir risgiau tebyg;
- mae rhai hefyd yn bryderus am ddefnyddio cemegion fel rhan o'r broses 'ffracio' a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd. Mae maint y dŵr sydd ei angen o bosibl hefyd yn bryder i rai;
- mae galw am ddatganiad polisi clir gan Lywodraeth Cymru ar ei barn ar y posibilrwydd o ddatblygu nwy anghonfensiynol fel rhan o'r cymysgedd ynni cyffredinol yn y dyfodol yng Nghymru;

- mae galw hefyd am rai canllawiau technegol gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau cynllunio lleol wrth iddynt ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer chwilio am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

- mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen pwyso a mesur potensial nwy anghonfensiynol fel ffynhonnell ynni, yn ogystal â'r pryderon am effeithiau posibl y math hwn o echdynnu nwy. Byddai'n croesawu pe bai Llywodraeth y DU yn gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig ledled y DU i weithredu fframwaith polisi cadarn a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Nwy Siâl yn y DU;
- nid yw'r cyfrifoldeb am lawer o'r gwaith o drwyddedu chwilio am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu wedi'i ddatganoli, ond dylid bod yn ofalus os oes angen caniatâd cynllunio.

Barn y Pwyllgor

- er gwaethaf barn Llywodraeth Cymru bod angen archwilio potensial nwy anghonfensiynol tra'n ystyried y risgiau posibl, mae'r Pwyllgor yn credu nad yw datblygu diwydiant ynni drud-ar-garbon arall ar hyn o bryd yn briodol ac ni ellir ei gysoni ag ymrwymadau'r UE a'r DU i leihau allyriadau;
- mae angen peth cymorth a chanllawiau technegol manwl ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol. Dylai'r rhain gynnwys canlyniadau'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth y DU ar ôl y digwyddiad seismig yn Swydd Gaerhirfryn y llynedd.

Argymhelliad

77. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i lunio canllawiau technegol ar ffurf **Nodyn Cyngor Technegol newydd** i helpu awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru i ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer **chwilio am nwy anghonfensiynol a'i echdynnu**, gan gynnwys ceisiadau lle cynigir defnyddio **ffracio hydrolog**.

Cylch Gorchwyl Gwreiddiol

Bydd y Pwyllgor yn ystyried sut mae'r trefniadau datganoli presennol ar gyfer polisi ynni a chynllunio yn effeithio ar gyflawni'r 'cymysgedd ynni' y mae Llywodraeth Cymru am ei weld, fel yr amlinellir yn *Chwyldro Carbon Isel – Datganiad Polisi Ynni (2010)* a'r *UK Renewable Energy Roadmap (2011)*.

- beth yw'r goblygiadau i Gymru os bydd y cyfrifoldeb dros ganiatáu prosiectau seilwaith mawr ar y tir mawr ac ar y môr yn parhau i fod yn fater sy'n cael ei gadw yn ôl gan Lywodraeth y DU?
- sut mae hyn effeithio ar gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi Ynni?
- sut mae hyn yn effeithio ar gyflawni targed Llywodraeth Cymru o gael gostyngiad o 3 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn o 2011 ymlaen?
- beth fydd yr effaith os na fydd penderfyniadau caniatáu ar gyfer prosiectau seilwaith mawr a datblygiadau cysylltiedig yn cael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio Cymru?

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried dwy ddeiseb am ganllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni gwynt ar y tir mawr a'r effaith ar gymunedau lleol a seilwaith.

Materion allweddol

Bydd y materion y bydd y Pwyllgor yn dymuno eu hystyried fel rhan o'r cylch gorchwyl yn cynnwys:

- rôl y gwahanol astudiaethau caniatáu, sut maent yn perthyn i'w gilydd, a sut y gellid gwella'r system bresennol – gyda datganoli pellach a hebdo (*Comisiwn Cynllunio Seilwaith, yr Arolygiaeth Gynllunio, awdurdodau cynllunio lleol, parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, y Sefydliad Rheolaeth Morol, Asiantaeth yr Amgylchedd*);
- y berthynas rhwng Datganiadau Polisi Ynni Cenedlaethol Llywodraeth y DU a pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol Cymru (gan gynnwys *Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 8* a chynlluniau datblygu lleol) ac a all y polisïau hyn gyflawni'r dyheadau. A oes angen cynnal adolygiad ffurfiol o Nodyn Cyngor Technegol 8?
- cyfraniad posibl mathau gwahanol o ynni adnewyddadwy a charbon isel (gwynt ar y môr, llanw, gwynt ar y tir, ynni dŵr, niwclear, *bio-ynni/biowastraff, microgynhyrchu, prosiectau ynni cymunedol*) a'r tebygolrwydd y byddant yn gallu cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn *Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni* a'r *UK Renewable Energy Roadmap*;

- cyfraniad posibl y mathau gwahanol hyn o ynni adnewyddadwy at gwrdd â tharged blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwyr;
- rôl posibl mathau eraill o gynhyrchu ynni yng Nghymru, fel methan gwely glo a nwy siâl;
- y problemau trafndiaeth mewn perthynas â thyrbinau gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy, gan gynnwys yr effaith ar ffyrdd, traffig a thwristiaeth.

Atodiad A – Prosiectau Ynni yng Nghymru: cyfrifoldeb am gydsynio

Math o brosiect Ar y tir ¹	Maint	Cydsyniad	Ar hyn o bryd	Yn y dyfodol
Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Pwysig (Cynhyrchu ynni)	>50MW	Gorchymyn Cydsynio Datblygiad (<i>Deddf Trydan</i> 1989 fel y'i diwygiwyd gan <i>Ddeddf Cynllunio</i> 2008)	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Yr Arolygiaeth Gynllunio – yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr)
Safleoedd ynni niwclear		Trwydded Safle Niwclear (<i>Deddf</i> <i>Safleoedd</i> <i>Niwclear 1965</i>)	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
		Gorchymyn Cydsynio Datblygiad (<i>Deddf Trydan</i> 1989 fel y'i diwygiwyd gan <i>Ddeddf Cynllunio</i> 2008)	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Yr Arolygiaeth Gynllunio – yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr)
Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Pwysig fel y grid	Gwifrau uwchddaearol > 132 Kv, piblinellau	Gorchymyn Cydsynio Datblygiad	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Yr Arolygiaeth

trydan/piblinellau nwy	nwy sy'n ymestyn ar draws gwlad (> 10 milltir)	<i>(Deddf Trydan 1989 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008)</i>		Gynllunio – yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr)
Chwilio am olew a nwy a'u hechdynnu (gan gynnwys 'ffracio')		Trwyddedau chwilio am betrolewm a'i ddatblygu (PEDLs)	Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd	Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
		Caniatâd Cynllunio (<i>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</i>)	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)
Prosiectau cynhyrchu ynni llai	<50MW	Caniatâd Cynllunio (<i>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</i>) ²	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)
Seilwaith ynni a 'datblygiadau cysylltiedig' llai, fel is-orsafoedd, rhwydweithiau dosbarthu foltedd is ³		Caniatâd Cynllunio (<i>Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990</i>)	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)	Awdurdodau cynllunio lleol (Yr Arolygiaeth Gynllunio/Gweinidogion Cymru)

Ar y môr (dyfroedd tiriogaethol Cymru - hyd at 12 môr-filltir)					
Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Pwysig (cynhyrchu ynni)	>100MW	Gorchymyn Cydsynio Datblygiad (<i>Deddf Trydan 1989</i> fel y'i diwygiwyd gan <i>Ddeddf Cynllunio 2008</i>)	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith ⁴	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (Yr Arolygiaeth Gynllunio - yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr) ⁴	
		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Gweinidogion Cymru	Gweinidogion Cymru	
Prosiectau cynhyrchu ynni eraill	1-100MW	Cydsyniad <i>Deddf Trydan 1989</i>	Y Sefydliad Rheoli Morol ⁴	Y Sefydliad Rheoli Morol ⁴	
		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Gweinidogion Cymru	Gweinidogion Cymru	
Cebllau dan y môr		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Gweinidogion Cymru	Gweinidogion Cymru	
Piblinellau Olew a Nwy		<i>Deddf Petrolewm 2008</i>	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd	

Ar y môr (dyfroedd y DU - mwy na 12 môr-filtir)					
Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Pwysig (Cynhyrchu ynni) + datblygiadau cysylltiedig fel gosod ceblau	>100MW	Gorchymyn Cydsynio Datblygiad (<i>Deddf Trydan 1989</i> fel y'i diwygiwyd gan <i>Ddeddf Cynllunio 2008</i>)	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd – Yr Arolygiaeth Gynllunio – yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr	
Cebiau dan y môr (nad ydynt yn gysylltiedig' â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol Pwysig)		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd – Yr Arolygiaeth Gynllunio – yr Uned Cynllunio Seilwaith Mawr	
Piblinellau olew a nwy		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Y Sefydliad Rheoli Morol	Y Sefydliad Rheoli Morol	
Prosiectau cynhyrchu ynni eraill	<100MW	<i>Deddf Petrolewm 2008</i> Cydsyniad <i>Deddf Trydan 1989</i>	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd Y Sefydliad Rheoli Morol	Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd Y Sefydliad Rheoli Morol	
		Trwydded Forol (<i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>)	Y Sefydliad Rheoli Morol	Y Sefydliad Rheoli Morol	

¹ Mewn rhai achosion, hwyrach y bydd hefyd angen Trwydded Amgylcheddol gan Asiantaeth yr Amgylchedd

² Mae rhai prosiectau microgynhyrchu yn 'ddatblygiadau a ganiateir' ac felly, nid oes angen caniatâd cynllunio arnynt

³ Hefyd yn berthnasol i 'ddatblygiadau cysylltiedig' ar y tir yn achos prosiectau ynni ar y môr

⁴ Gall Gweinidogion Cymru hefyd gydysnio i brosiectau ynni mawr mewn dyfroedd tiriogaethol dan *Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992* os bydd ymgeiswyr yn cyflwyno ceisiadau iddynt hwy yn hytrach na'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith neu ei olynydd a phe bai'n bosibl i'r cynigion darfu ar hawliau mordwyo

Atodiad B – Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1308>

21 Medi 2011

Carwyn Jones AC	Prif Weinidog Cymru
John Griffiths AC	Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru
Rhodri Asby	Llywodraeth Cymru
Clive Bates	Llywodraeth Cymru
Matthew Quinn	Llywodraeth Cymru

29 Medi 2011

Dr Richard Cowell	Prifysgol Caerdydd
Dr Calvin Jones	Prifysgol Caerdydd
Dr Roisin Willmott	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

13 Hydref 2011

Sir Michael Pitt	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith
Ian Gambles	Y Comisiwn Cynllunio Seilwaith

19 Hydref 2011

Llywelyn Rhys	RenewableUK Cymru
Piers Guy	Nuon Renewables
Caroline McGurgan	Eco2

3 Tachwedd 2011

Wayne Cranstone	npower renewables
Steve Knight-Gregson	Y Grid Cenedlaethol
Janice McLaughlin	Scottish Power Renewables

Sam Peacock	SSE
Colin Taylor	Scottish Power Energy Networks
Simon Wells	RWE npower

23 Tachwedd 2011

Peter Burley	Yr Arolygiaeth Gynllunio
Morgan Parry	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Roger Thomas	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Dr Sarah Wood	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ceri Davies	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Anthony Wilkes	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

1 Rhagfyr 2012

Llywelyn Rhys	RenewableUK Cymru
Gerry Jewson	West Coast Energy
Steve Salt	West Coast Energy
Martin Murphy	Tidal Energy
Craig Mitchell	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cynghorydd Graham Brown	Cyngor Sir Powys
Steve Packer	Cyngor Sir Powys
Alan Southerby	Cyngor Sir Powys
Cynghorydd David Lewis	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Geoff White	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

12 Ionawr 2012

John Day	Prif Ddeisebwr, P-04-024 Dywedwch Na i TAN 8 – Mae ffermydd gwynt a llinellau pŵer foltedd uchel yn difetha ein cymuned
Huw Morgan	Sir Drefaldwyn yn erbyn Peilonau
John Morgan	Cymdeithas Mynyddoedd Cambria

Peter Ogden	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Neville Thomas CF	Cynghrair Swydd Amwythig a Chanolbarth Cymru
Jonathan Cawley	West Coast Energy
Morag Ellis CF	
Simon Power	Arup
Mike Webb	RSPB Cymru

26 Ionawr 2012

Cynghorydd Estelle Blevais	Cyngor Tref y Trallwng
Robert Robinson	Cyngor Tref y Trallwng
Nick Oliver	AECOM
Kevin McCullough	Panel y Sector Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

9 Chwefror 2012

Michael Butterfield	Prosiect y Cymoedd Gwyrdd Llangatwg
Peter Davies	y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy
Andy Rowland	ecodyfi
Rod Edwards	Dulas Ltd
Michael Phillips	Dulas Ltd
Andrew Padmore	Egnida

22 Chwefror 2012

Dr Miles Willis	Sefydliad Ymchwil Carbon Isel – Morol
Tonia Forsyth	Marine Energy Pembrokeshire
Dr Dickon Howell	Marine Management Organisation
Toby Gethin	Ystad y Goron
Dr David Tudor	Ystad y Goron

1 Mawrth 2012

Dr Sandra Esteves	Canolfan Ragoriaeth Cymru ar gyfer Treulio Anaerobig, Prifysgol Morgannwg
Clifford Parish	Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru
Kath McNulty	Cyddfederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor)
Darren Williams	Eco2
Dr Aonghus McNabola	Prosiect Hydro-BPT, Coleg y Drindod, Dulyn
Ewan Campbell-Lendrum	Infinis
Richard Rees	Ynni Dŵr Gogledd Cymru

15 Mawrth 2012

Carwyn Jones AC	Prif Weinidog Cymru
John Griffiths AC	Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru
Edwina Hart AC	Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru
Carl Sargeant AC	Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, Llywodraeth Cymru

21 Mawrth 2012

Mark Picton	RWE npower
Dr Michael Gandy	Celtic Energy Ltd
Yr Athro Jim Watson	Sussex Energy Group, Prifysgol Sussex

29 Mawrth 2012

Cynghorydd Stephen Churchman	Fforwm NFLA Cymru
Yr Athro Kevin Anderson,	Canolfan Tyndall
Dr John Broderick	Canolfan Tyndall
John Harrison	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Dave Jones	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Atodiad C – Tystiolaeth Ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor i gefnogi tystiolaeth lafar. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=1336>

<i>Sefydliad / Enw</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Anwen Roberts	EPP 01
Roland Baskerville	EPP 02
Judith Stretton	EPP 03
Grŵp Gweithredu Llansanffraid	EPP 04
KD & BM Holland	EPP 05
Salop leisure	EPP 06
Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartref Prydeinig Cyf	EPP 07
Calor Gas	EPP 08
Geoffrey Weller	EPP 09
Parc Cenedlaethol Eryri	EPP 10
Cymuned Cilgwyn	EPP 11
Mrs J Hanratty	EPP 12
Frances Cartwright	EPP 13
Jenny Butler	EPP 14
Paul Butler	EPP 15
Chloe Read	EPP 16
Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	EPP 17
Oili Hedman	EPP 18
Robert Trueman	EPP 19
Comisiwn Cynllunio Seilwaith	EPP 20
J Vaughan Gronow	EPP 21
Philip Jones	EPP 22
David Lewis	EPP 23

Derek Wick	EPP 24
John & Christine Rowland	EPP 25
Louise Guidery	EPP 26
Maggie Eaton	EPP 27
Mark & Helen Rivers	EPP 28
Paul Sear	EPP 29
Peter Foulkes	EPP 30
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Tâf	EPP 31
Tim Ware	EPP 32
Nigel & Stella Bullock	EPP 33
Ken Whitmore	EPP 34
Elaine Williams	EPP 35
Gwasanaethau Ymghynghori ER Hughes	EPP 36
Alun Bunford	EPP 37
Mrs Beryl Crone	EPP 38
Kathleen Harries	EPP 39
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria	EPP 40
Mark Michaels	EPP 41
Steve Galloway.	EPP 42
Steve Southam	EPP 43
Phil Bettley	EPP 44
Mrs H Ravenhill	EPP 46
Dr Helen K Little	EPP 47
Sandra Vaughan-King	EPP 48
Jack Watkins	EPP 49
Julie Jones	EPP 50
Howard Jones	EPP 51
Sandra & Paul Evans	EPP 52
Ymddiriolaeth Natur Sir Drefaldwyn	EPP 53
James & Susan Grafton	EPP 54

Mr A G Letts	EPP 55
Mrs Jitka Novak	EPP 56
Sarah Faulkner	EPP 57
Ray Mitchell	EPP 58
Tony Burton	EPP 59
Miss Tamasine Stretton	EPP 60
Roger Goff	EPP 61
Gillian Foulkes	EPP 62
Debbie Gilbert	EPP 63
Irene Earis	EPP 64
Ms A Ra & Miss A Brain	EPP 65
Carole O'Reilly	EPP 66
Pat Atkinson	EPP 67
Yr Arolygiaeth Gynllunio	EPP 68
Richard Noyce	EPP 69
Steve & Karen Howland	EPP 70
Diane & Richard Goodchild	EPP 71
T Foley	EPP 72
Mrs J Hussey	EPP 73
John & Sue Beynon	EPP 74
William Beament	EPP 75
Ysgrifenyddiaeth Awdurdodau Lleol Di-Niwclear	EPP 76
D J Dunkley	EPP 77
D Evans	EPP 78
Paul, Laura & Richard Barnes a Louise Lloyd	EPP 79
Deb Justice Ian Turford Michael Justice	EPP 80
Ms G Taylor	EPP 81
Gordon Dibbs	EPP 82
Pat & Robin Murchie	EPP 83

Charles Turpin	EPP 84
Buddug Mai Bates	EPP 85
Y Parch. J Ll W. Williams	EPP 86
Mrs S Smith	EPP 87
Victoria Morgan	EPP 88
Sefydliad y Merched Pontrobert	EPP 89
Diane Whittingham	EPP 90
Rory D Trappe (Cynrychiolwyr Undebau Llafur safle dicomisiynu niwclear Trawsfynydd)	EPP 91
David Millett	EPP 92
David Hughes	EPP 93
Mrs E L Pemberton	EPP 94
John Clarke	EPP 95
George Whitworth	EPP 96
John & Maria Jones	EPP 97
Marie Shirley Smith	EPP 98
Jill Kibble	EPP 99
Cynghorydd E A Jones	EPP 100
Cyngor Gwynedd	EPP 101
David Morgan	EPP 102
Sir Drefaldwyn yn erbyn Peilonau	EPP 103
Datrysiadau Ynni	EPP 104
Gordon Dibbs	EPP 105
William & Carolyn Gough	EPP 106
Barry Smith	EPP 107
West Coast Energy Ltd	EPP 108
Mr R Watson	EPP 109
Jane Stewart	EPP 110
Linda & Jenny Shepherd	EPP 111
Steven & Joyce Jary	EPP 112

D J Bispham	EPP 113
Jennifer Bispham	EPP 114
Sheila & Mike Price	EPP 115
Daphne Bursell	EPP 116
G E Evans	EPP 117
M F Dixon	EPP 118
David & Lynda Dabinett	EPP 119
David A Smyth	EPP 120
Frances Buckingham	EPP 121
S Day	EPP 122
Brett Kibble	EPP 123
Barbara Jessop	EPP 124
David Reeves	EPP 125
Steve & Linda Elliott	EPP 126
Grŵp Amgylchedd Ardal Casnewydd	EPP 127
John & Lilian Gordon	EPP 128
Eirwen Allen	EPP 129
Dale Callingham	EPP 130
David Surrey	EPP 131
Mrs P Evans	EPP 132
Gareth Thomas	EPP 133
David Bellamy	EPP 134
Nigel Brown	EPP 135
Peter Ashcroft	EPP 136
Dŵr Cymru	EPP 137
Jan & Martin Watt	EPP 138
Peter Lewis	EPP 139
Cyngor Cymuned Carno	EPP 140
Amanda Jenkins	EPP 141
Yr Athro L.Birke a Dr. C. Rivera	EPP 142

Stella Towsend	EPP 143
Martin Pearce Ltd	EPP 144
Mrs Leigh O'Connor	EPP 145
Miss M L Fanders a Mr B S Crawford	EPP 146
Parciau Cenedlaethol Cymru	EPP 147
Graham & Jackie Ellis	EPP 148
Cyngor Sir Benfro	EPP 149
Mr Brian & Mrs Becki Davies	EPP 150
Sue Cullup-Smith	EPP 151
Tina Stamps	EPP 152
Dr James D C Martin	EPP 153
Robin & Helen Cox Aaron & Isabella Cox	EPP 154
Swalec / SSE	EPP 155
RWE npower a RWE npower renewables	EPP 156
Yr Athro B O'Neill	EPP 157
Anthony, Rosemary & Fleur Richards	EPP 158
Nicola Dearling	EPP 159
Dulas Ltd	EPP 160
David Jones	EPP 161
Pwyllgor Trosowlg a Chraffu'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Ceredigion	EPP 162
Dr S Hart	EPP 163
Graham Law	EPP 164
Alan Morgan	EPP 165
Ann Yewdall	EPP 166
Yr Awdurdod Glo	EPP 167
Grŵp Gwirfoddoli Cymuned GALAR	EPP 168
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad	EPP 169
Renewable UK Cymru	EPP 170
Stephen Wilson a Susan Wilkinson	EPP 171

Richard & Janice Bonfield	EPP 172
Eco Cymru	EPP 173
Michael Bowen	EPP 174
Jason Howard	EPP 175
Mike Blood	EPP 176
Mark Davies	EPP 177
Comisiwn Dylunio Cymru	EPP 178
Jane Bowen	EPP 179
Lynette Davies	EPP 180
Dr Evelyn Over	EPP 181
Mr & Mrs I Bernard	EPP 182
Becky Bigglestone	EPP 183
Ffion Evans	EPP 184
Christopher Wallbank	EPP 185
Cara Evans	EPP 186
Steffan Evans	EPP 187
Sue Jones	EPP 188
J Bridges	EPP 189
Heather Brigland	EPP 190
Cynghrair Swydd Amwythig a Chanolbarth Cymru	EPP 191
Jackie Evans	EPP 192
L R Mytton	EPP 193
Michael & Claudi Halsey	EPP 194
Lorraine Jones, William Jones, Sheila Jones, Gail Jones, Cheryl Lloyd, Russell Lloyd Caroline Marsh, Bill Marsh	EPP 195
Mike Cokayne	EPP 196
Wendy Owen	EPP 197
S Partridge	EPP 198
Michele Lloyd	EPP 199
Grŵp Blaengwen	EPP 200

Cyngor Cymuned Llanfechain	EPP 201
Moira W Smith	EPP 202
Jamie Dalmer	EPP 203
Grŵp Gweithredu Mochdre	EPP 204
Kevin Jones	EPP 205
Mrs L Boots	EPP 206
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	EPP 207
Ian Stamps	EPP 208
Mr & Mrs J W Jones	EPP 209
Ann Butler	EPP 210
Un Llais Cymru	EPP 211
Jiri George Novak	EPP 212
Robert Hall	EPP 213
NFU Cymru	EPP 214
Ymgynghorwyr Natural Power	EPP 215
Neil Grant	EPP 216
John R Jones	EPP 217
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	EPP 218
Terence Ingram	EPP 219
Stephen Morgan	EPP 220
Cynghorydd Eldrydd Jones	EPP 221
Gareth, Alison, Ifan & Llyr Davies	EPP 222
Dr J Hill	EPP 223
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot	EPP 224
Undeb Amaethwyr Cymru	EPP 225
Ystad y Goron	EPP 226
Scottish Power	EPP 227
Robinetta Lloyd-Jones	EPP 228
Cyngor Sir Ynys Môn	EPP 229
Carolle Doyle	EPP 230

Grŵp Gweithredu Ynni Coedwig Brechfa	EPP 231
J Saffron	EPP 232
Cymdeithas Twristiaeth Coedwig Brechfa a Mynydd Llanllwni Mountain	EPP 233
Les Smith	EPP 234
Marine Energy Pembrokeshire	EPP 235
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	EPP 236
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	EPP 237
Cyfeillion y Ddaear	EPP 238
Cynghrair Twristiaeth Cymru	EPP 239
Tegni Cymru Cyf	EPP 240
Tegni Ltd	EPP 241
Romy Shovelton	EPP 242
Athrofa Ymchwil Carbon Isel	EPP 243
EDF Energy	EPP 244
WWF	EPP 245
Zoe Smith	EPP 246
Diane Reeves	EPP 247
RSPB Cymru	EPP 248
Y Grid Cenedlaethol	EPP 249
Ynni Cymunedol Cymru	EPP 250
Sally Austin	EPP 251
Dr A Cresswell	EPP 252
J R & L E Hancock	EPP 253
Roger & Sarah May	EPP 254
Jonathan Francis-Scott	EPP 255
John Williams	EPP 256
Miss Layla Long	EPP 257
June Watts	EPP 258
Michelle Lloyd	EPP 259

Stephen Long	EPP 260
Mr Brynmor Bryce	EPP 261
Jane Peate	EPP 262
Cyngor Cymuned Llangyniew	EPP 263
Neil Grant	EPP 264
Sue Hayward a Malcolm Whitehead	EPP 265
Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol	EPP 266
Norman Roberts	EPP 267
Nigel Smith	EPP 268
Andrea Marlow	EPP 269
M J Davies	EPP 270
Mr & Mrs Davies	EPP 271
Mrs S Jopling	EPP 272
Pwyllgor Cyfraith Cynllunio ac Amgylcheddol Cymdeithas y Cyfreithwyr	EPP 273
Centrica	EPP 274
Cyngor Sir Powys	EPP 275
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig – Cyngor Sir Powys	EPP 276
Bert Holness a Sally George	EPP 277
Nerys Rogers	EPP 278
Robert, Jaci, Phil, & Mary Dunsford,	EPP 279
David T Jones	EPP 280
D W Amos	EPP 281
Mrs S Hawley & Dr A Hawley	EPP 282
Mrs J Evans & Parch P Evans	EPP 283
G Bevis	EPP 284
Bethan & Dyfrig Jones	EPP 285
Ann Yewdall	EPP 286
John Day	EPP 287
W D J Hicks & Mrs K Hicks	EPP 288

Jane Gweno	EPP 289
Robert Horler	EPP 290
R David R Corser, Sarah M Corser a Luned M Corser	EPP 291
Prosiect Rainbow Trails	EPP 292
Cymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau Mwyaf Gogledd Cymru	EPP 293
Dr Alan Belfield	EPP 294
Mr & Mrs Jarvis	EPP 295
Mr & Mrs Kappel	EPP 296
Mrs Ann Lawrence	EPP 297
Mrs Maxine Belfield	EPP 298
Wynn Rowlands	EPP 299
Chris Owen	EPP 300
Mrs Doreen Lawson	EPP 301
Mrs Holder	EPP 302
Allan Higgs	EPP 303
T A Jones	EPP 304
N M James	EPP 305
T Martin Jones	EPP 306
David Morgan Jones	EPP 308
Joan Morgan	EPP 309
Tony Hughes, Cyd Bwyllgor Cynghorol AHNE Bryniau Clwyd	EPP 310
Idris & Judy Andrew	EPP 311
Cyngor Cymuned Llandrinio ac Arddleen	EPP 312
Cyngor Cymuned Llandysilio	EPP 313
Cyngor Tref y Trallwng	EPP 314
Fforwm Cyngor Lleol Sir Drefaldwyn	EPP 315
Gary Swaine	EPP 316
Panel y Sector Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	EPP 317

Eitem 3.5

P-03-309 Caerdydd yn erbyn y llosgydd

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymyrryd â stopio'r cynllun llosgydd sy'n cael ei gynnig gan Virador. Fel trigolion yng Nghymru, rydym o'r farn y bydd y cynllun hwn yn niweidiol i'n lles a'n iechyd ni a'n plant.

Cyflwynwyd y ddeiseb gan: Rick Newnham

Ysytiriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: Tachwedd 2010

Nifer y llofnodion: 2,203

John Griffiths AC /AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-03-309
Ein cyf/Our ref JG/06216/12

William Powell AM
Chair Petition's committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

27 June 2012

Dear William,

Thank you for your letter requesting that I examine whether the planning processes for the Cardiff incinerator were correctly followed, and your follow up letter of 14 June requesting that you consider the weight of support for the petitions against incineration. I can outline the position now reached in relation to this case but I should make it clear from the outset that I am not at liberty to undertake the investigation which you request and this fact is not altered by the weight of support gathered by the petitioners.

Given the statutory role of the Welsh Ministers in the planning process, and that the matter may come before me at some point in the future, it would not be appropriate for me to comment on the merits of this, or any specific case.

Generally, complaints about the delivery of the planning service at a local level should, in the first instance, be directed to the local planning authority, initially to the authority's Chief Planning Officer, and subsequently to the authority's Monitoring Officer. If, having exhausted these lines of complaint, the complainant's concerns have not been addressed, then they may wish to take up the matter with the Public Services Ombudsman for Wales, who can investigate complaints of personal injustice that have arisen through maladministration. These channels have been utilised in this case and it is a matter for the local planning authority to now consider the implications of the investigation undertaken by the Ombudsman.

It is important to understand that whilst the Ombudsman can investigate the administrative process that informs decisions on planning applications, he cannot investigate or overturn planning decisions. Any challenge, by a third party, to overturn a planning decision could only be sought as a result of Judicial Review and anyone considering this course of action should seek their own legal advice. Otherwise, once a planning permission has been granted, it can only be taken away by statutory revocation. Revocation is, in the first instance, a matter for the local planning authority, using powers in the Town and Country Planning Act 1990 (as amended).

Welsh Ministers, however, have reserve powers to propose making an order, but these would be likely to be used in only the most exceptional circumstances and the general principle and policy which has been followed by successive Governments is that these default powers should only be used *if the original decision is judged to be grossly wrong, so that damage would be done to the wider public interest*. Your committee will also wish to note that the use of Welsh Ministers default power would only be considered after the local planning authority has explored whether they would revoke the permission.

Yours,



John Griffiths AC / AM

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

P-04-351 Adalw CDLI (Cynlluniau Datblygu Lleol)

Geiriad y ddeiseb:

Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adalw'r holl Gynlluniau Datblygu Lleol ledled Cymru ac i roi'r gorau i ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddir gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegau ac a ddefnyddir i chwyddo niferoedd y tai mewn cynlluniau datblygu lleol. Galwn am i'r holl CDLI, waeth pa mor bell maent wedi cyrraedd, gael eu hatal ar unwaith er mwyn i lefel y twf mewn tai gyd-fynd ag anghenion lleol gwirioneddol.

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod o'r farn fod yr holl CDLI sy'n cael eu llywio gan amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru heb eu hystyried yn fanwl, eu bod yn sylfaenol wallus ac yn niweidiol i gymunedau Cymru.

Nid yw'r math hwn o gynllunio yn gynaliadwy, ac nid oes ar bobl Cymru mo'i angen na'i eisiau. Er mwyn atal y niwed sydd eisoes yn cael ei wneud, ac i atal niwed a dinistr pellach na ellir eu gwrthdroi yn ein cymunedau, ein hamgylchedd a'n hunaniaeth ledled Cymru, apeliwn ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd ar unwaith.

Prif ddeisebydd: Cynghorydd Carrie Harper

Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf: 10 Ionawr 2012

Nifer y deisebwyr: 2,471

Gwybodaeth ategol:

Mae nam sylfaenol yn fformiwla amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru, gan ei bod yn dibynnu'n helaeth ar dueddiadau o'r gorffennol o ran mudo i Gymru heb roi ystyriaeth i'r hyn sy'n fforddiadwy. Mae defnyddio'r fformiwla hon yn dal i arwain at lefelau annaturiol o uchel o dai a thwf yn y boblogaeth a fydd yn cael eu gweithredu drwy gyfrwng ein CDLI. Mae goblygiadau gweithredu cynlluniau o'r fath yn anferth, ac maent yn effeithio ar lawer agwedd ar fywyd ar hyd a lled y wlad:

Hunaniaeth a hawliau dynol (o ran hunaniaeth, iaith, diwylliant, cymeriad a mynegiant pobl Cymru). Yn amgylcheddol (o ran bod yn gynaliadwy, ecoleg, cynefin naturiol a'r amgylchedd adeiladau) a chynaliadwyedd cymdeithasau (o ran demograffeg, economeg, gwleidyddiaeth a chymunedau).

Mae awdurdodau lleol wedi dweud yn gyhoeddus eu bod yn ofnus ynglŷn â gwyro i unrhyw raddau helaeth oddi wrth y ffigurau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru rhag i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu bod eu CDLI yn 'ansicr'. Mae hyn yn sicrhau bod barn leol yn cael ei hanwybyddu yn ystod y broses o baratoi CDLI, ac mae ein cynrychiolwyr lleol yn ei chael yn anodd

herio lefelau twf mewn tai sy'n anghynaliadwy.

Mae angen ateb gan y Llywodraeth ar frys gan nad oes digon o le yn yr ysgol gyfun bresennol a bydd yn rhaid gwrthod lle i ddisgyblion mor fuan â mis Medi 2013.

John Griffiths AC /AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-351
Ein cyf/Our ref JG/06899/12

William Powell AM
Chair Petition's committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

7 September 2012

Dear William,

Please accept my apologies for the delay in responding to your letter dated 13 January which has been forwarded to me as a matter falling within my portfolio. I trust the following explanation of the legislative context of preparing a plan, the public scrutiny all plans undergo and the description of the powers available to Welsh Ministers will explain why I consider the petition is ill-founded and its suggested action should not be taken.

The Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (section 62) places a statutory duty on local planning authorities across Wales (25 in total) to prepare a Local Development Plan (LDP) for their administrative area. The 2004 Act, combined with the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005, set out the due process to be followed when preparing a LDP. Key to the preparation of a LDP is the requirement for a robust and credible evidence base which supports its content.

